# Monologau Gaza

## Theatr Ashtar

## 2010

*Cyfieithwyd o Arabeg (Palesteina) i'r Saesneg gan Fida Jiryis*

## 1. Ahmad El Ruzzi

**Ganed 1993**
**Stryd Al Wehda**

Cyn y rhyfel, ro’n i’n teimlo fel pe bai Gaza yn ail fam i fi. Ei thir oedd y fynwes gynnes y gallwn orwedd arni, a’i hawyr oedd fy mreuddwydion... yn ddiderfyn. Byddai’r môr yn golchi fy mhryderon ymaith. Ond heddiw, mae’n teimlo fel alltud. Nid yw’n teimlo fel dinas fy mreuddwydion mwyach.

Yn y rhyfel, cafodd y prif bolyn trydan ei daro gan roced enfawr. Roedd fy holl ewythrod adre gyda ni pan ddiffoddodd y trydan, ond roedd llinell arall yn gweithio, yn agos i’r tŷ. Es i draw at fy nghymydog i ofyn iddo am estyniad, er mwyn i ni allu cysylltu â’r ail linell. Yn syth ar ôl i ni gysylltu a chael golau yn ein tŷ, daeth i gymryd ei estyniad yn ôl. Cawson ni ddadl enfawr.

Mewn rhyfel, mae pawb yn meddwl am eu hunain.
Yn ystod y rhyfel, roedd gan lawer o bobl ugain bag o flawd heb ddim prinder nwy, tra bod eraill heb dafell o fara... roedden nhw’n gofyn i’w cymdogion am fara, a fydden nhw ddim yn rhoi dim byd iddyn nhw. Byddai’r rhan fwyaf o bobl yn cloi eu pethau i ffwrdd, ac yn penderfynu peidio â’u rhoi i neb. Ond roedd eraill yn dda ac yn gymwynasgar.

Yn ôl at y stori. Wnaethon ni ddim cytuno i roi’r cysylltiad yn ôl iddo, er mai ei estyniad e roedden ni’n ei ddefnyddio, ac am y tro cyntaf sylweddolais mor ddrwg allen ni fod. Cawson ni ein cosbi yn y fan a’r lle. Cafodd y tŷ drws nesaf ei fomio a’i rannu’n ddau, ac fe gwympodd hanner y tŷ arnon ni. Fe adawon ni’r cysylltiad a’r trydan a phopeth arall a rhedeg i dŷ fy ewythr, oedd drws nesaf i’r parc dinesig.

Mae tŷ fy ewythr yn agos i un o adeiladau’r llywodraeth, ac wrth iddi nosi dechreuodd pobl ddweud y byddai’r adeilad hwnnw’n cael ei fomio, a phe bai’n cael ei fomio gallai tŷ fy ewythr gael ei chwalu’n ddeilchion! Eisteddon ni yno heb wybod beth i’w wneud na ble i fynd. Roedd fy nhad yn tawelu ein meddwl bob munud: “Peidiwch â phoeni, peidiwch â bod ofn, fydd dim byd yn digwydd.” Arhoson ni fel yna tan ganol nos. Roedden ni’n clywed rocedi a ffrwydradau yn ddi-baid, ac roedd fy nhad yn dal i ddweud “peidiwch â phoeni, peidiwch â bod ofn”, ond yn sydyn, dywedodd: “Dilynwch fi! Rydyn ni’n mynd ’nôl adre!” A dechreuodd grynu. Dechreuon ni i gyd grynu gydag e. Dechreuodd fy mam sgrechian ac roedd fy ewythr mewn lle gwael iawn. Ta waeth, fe redon ni i gyd yng nghanol y nos gyda theulu fy ewythr.

Rhedon ni adre... allen ni ddim credu’r peth pan gyrhaeddon ni adre. Hyd heddiw, alla i ddim cofio lle gysgon ni, na sut. Y peth pwysig oedd ein bod ni’n bell o’r adeilad yna. Gwelon ni fod ein cymydog wedi mynd â’r cysylltiad trydan, ac fe dreulion ni’r noson mewn tywyllwch, tra bod ei dŷ e wedi’i oleuo. Ro’n i’n teimlo ei bod hi’n iawn iddo gymryd ei gysylltiad yn ôl.

Ar ôl hynny, datblygodd dad obsesiwn â chysylltiad... prynodd 3 chebl trydan a 6 photel nwy, 2 badell drydan, 20 golau neon, 20 pecyn o ganhwyllau, 6 phecyn o ganiau, 10 pecyn o wifrau, 6 fflachlamp a 2 focs o fatris. Rydyn ni’n byw mewn rhyfel, ac mae’n rhaid i ni fod yn ofalus tan i bethau wella.

Datblygais i gymhlethdod gwaeth na’r lleill. Mae fel pe bawn i’n arfer bod yn hael cyn y rhyfel, neu efallai nad o’n i’n deall gwerth pethau, oherwydd fydden i byth wedi credu y byddai yna ddiwrnod pan fydden i methu dod o hyd i ddiod o ddŵr neu ddarn o fara. Ond ar ôl y rhyfel, ro’n i’n ofalus iawn gyda phopeth ac unrhyw beth, prin fy mod i’n rhoi siwgr yn fy nhe. A phe bawn

i’n torri torth o fara, fysen i ddim yn cael ei gorffen. Collais fy awydd am fwyd, ac ro’n i’n ddarbodus iawn. Mae fy nhad yn dweud: “Mae arian poced Ahmad bob amser ganddo”… Wrth gwrs, gan fy mod i’n ei gymryd ac yn ei gadw rhag ofn bod rhyfel arall!

Rwy’n teimlo fel pe bawn i’n briod â deg o blant. Rwy’n ofni bywyd... popeth... y pethau bach... rwy’n poeni o hyd. Rwy’n teimlo fel pe bai Gaza gyfan yn eistedd ar dywod sy’n symud. Gall unrhyw wallgofrwydd y gallwch ei ddychmygu ddigwydd mewn eiliad yn y lle yma, a gallai llawer o freuddwydion gael eu gwireddu hefyd. Mae’n ddinas ryfedd, heb ddim rhesymeg.

Mae Tsieina bellach yn draean o’r byd, ac maen nhw i gyd yn gweithio ond prin y gallan nhw greu digon o sgidiau a chrysau i Gaza. Mae Gaza’n defnyddio popeth, ac mae’r byd yn ymosod arni, ond mae’n parhau i esgus nad oes dim o’i le. Mewn gwirionedd, mae Gaza’n llawn tlodi, ac mae yna bobl sy’n pigo eu bwyd o’r sbwriel.
Y drasiedi yw bod pethau’n parhau i waethygu, a’r drasiedi fwyaf oll yw nad oes dim byd i rwystro hynny rhag digwydd.

Mae gwaelod i bob pwll, heblaw Gaza.

Rwy’n breuddwydio am gael byw mewn rhyddid ryw ddydd, a dw i ddim yn credu bod hynny’n freuddwyd fawr, ond mae’n un anodd ei gwireddu.

Breuddwyd arall sydd gen i yw y bydd rhaniad Palestina, sy’n ein gyrru ni’n o’n pwyll, yn dod i ben.

Rydw i wedi blino meddwl, ond alla i ddim peidio. Ond mae’n rhaid i ni ymbil ac fe wnaiff Duw ddarparu. Ac i chi gyfeillion, ffarwel!

**2. Ahmad Taha**
**Ganed 1996**
**Al Daraj**

Drwy fy oes ro'n i'n meddwl mai Gaza oedd y ddinas fwyaf a harddaf yn y byd. Ond es i gyda fy nhad i Jaffa un tro, a des i'n ôl gyda fy mhen i'n troelli. Ar ôl hynny, ro'n i'n teimlo mai dim ond maint crau nodwydd oedd Gaza, ac nad oedd hi'n hardd, ac mae'n parhau i leihau a gwaethygu. All neb anadlu, ac ar ben hynny, chawn ni ddim teithio.

Bob tro y bydda i'n cerdded ar hyd strydoedd Gaza, rwy'n mygu. Wnaiff darlun Jaffa ddim gadael fy nghof. Rwy'n gofyn i fy hunan, ble ydyn ni? Rydyn ni mor bell o weddill y byd. Dyna pam fy mod i wrth y môr o hyd, gan fy mod i'n teimlo nad yw'n dod o Gaza. Rwy'n ysgrifennu fy enw yn y tywod dro ar ôl tro, ac mae'r tonnau'n dod i'w ddileu.

Cyn y rhyfel, ro'n i am fod yn beiriannydd electroneg, ond ers y rhyfel mae'n gas gen i fynd i'r ysgol. Dw i ddim yn teimlo y bydda i'n ddim byd pwysig yn fy mywyd, a hyd yn oed pe bawn i, beth yw'r ots? Mae popeth yr un fath yn y ddinas yma. Ydw i'n mynd i fod y blodyn harddaf ar domen sbwriel?

Pan ddechreuodd y bomio, aeth yr holl ysgolion yn Gaza adre, heblaw amdanon ni. Doedd y pennaeth ddim yn fodlon i ni adael. Roedd y plant wedi dychryn, ac ymhen eiliad, aethon nhw allan i iard yr ysgol. Y peth rhyfedd yw'r ffaith fy mod i yn ysgol Zaytouneh, sef yr ysgol agosaf i'r Weinyddiaeth Pasbortau, a gafodd ei tharo yn gyntaf. Gyda'r trawiad cyntaf, hedfanodd darn o roced at y goeden fwyaf yn yr ysgol, a'i thorri'n ddwy fel cansen siwgr. Pan welon ni hynny, wnaeth neb aros yn yr ysgol – y disgyblion, yr athrawon, na'r pennaeth. Dihangon ni am ein bywydau.

Ro'n i'n meddwl mai'r unig ferthyr y byddwn i'n ei weld yn y rhyfel oedd y goeden. Ond cyn gynted ag y cyrhaeddais i adre, roedd pedwar merthyr ar ein stryd, fel pe baen nhw'n aros i fi ddod i ddweud hwyl fawr wrthyn nhw. Pan o'n i wedi gorffen gyda hynny, cyrhaeddodd tri merthyr arall o'r un teulu ar ein stryd... Cyn gynted i ni eu claddu nhw a dychwelyd, cafodd tŷ ein cymydog, drws nesaf ond un, ei fomio gan y fyddin a diflannodd y tŷ oddi ar y ddaear. Bu farw pawb. Ro'n i'n teimlo'n fwyaf trist am y merched bach.

Ro'n i'n teimlo fel pe bai'r rhyfel yn fy nhargedu i, o'r holl bobl yn Gaza. Ro'n i wedi bod yn gweld merthyron drwy'r dydd.

Yn ysbyty Shifaa, gwelais olygfa na wna i fyth ei hanghofio. Cannoedd o gyrff marw ar ben ei gilydd. Eu cnawd, eu gwaed, eu hesgyrn yn toddi ar ei gilydd. Fyddech chi ddim yn gallu gwahaniaethu'r fenyw oddi wrth y dyn oddi wrth y plentyn. Pentyrrau o gnawd ar y gwelyau, a llwyth o bobl yn sgrechian ac yn crio, heb wybod ble mae eu plant, eu dynion neu eu menywod.

Y noson honno, des i adre o'r ysbyty ac ro'n i ar ddeffro tan y bore mewn ofn. Ro'n i'n meddwl mai dim ond y noson honno fydden i methu cysgu, ond hyd heddiw dw i'n eu gweld nhw o fy mlaen, ac alla i ddim cysgu!

**3. Ashraf A Sossi**
**Ganed 1994**
**Stryd Al Wehda**

Roedd holl blant y gymdogaeth wrth eu boddau ag e. Roedd e mor hamddenol â'r awel, a byddai'n mynd â'i arian poced gan fy nhad ac yn ei roi i fi.

Roedd pawb wrth eu boddau gydag e. Daeth ei ffrindiau i'w nôl ac fe aeth e gyda nhw i'r ysgol. Rhedon nhw allan fel gloÿnnod byw, yn hedfan oddi ar y ddaear... fel pe bai'r byd wedi'i greu iddyn nhw.

Roedd awyrennau Israel yn yr awyr. Roedd sŵn hofrennydd fel bwystfil yn aros i neidio ar ei ysglyfaeth.

Roedd car o ddynion roedden nhw'n chwilio amdanyn nhw yn dreifio ar hyd stryd Yarmouk, ac roedd y gloÿnnod byw yn agos i'r car. Doedd y gloÿnnod byw ddim yn gwybod mai'r car hwn fyddai'r tân fydd yn eu llosgi.

Syrthiodd roced ar y car. Hedfanodd fy mrawd Tareq bum metr oddi ar y ddaear. Hedfanodd yn uwch na'r car, cyn glanio, codi a cherdded; doedd dim byd o'i le gydag e. Daeth yr heddlu a chymryd y cyrff. Dywedodd pobl wrtho i fynd i'r ambiwlans, ond dywedodd: "Does dim byd o'i le arna i," ac aeth yn ei flaen i'r ysgol.

Gan metr yn ddiweddarach, rhoddodd ei law ar ei galon, a chwympodd yn ferthyr. Ro'n i yn y stryd yn aros am y bws ysgol, a dywedodd fy chwaer wrtha i i fynd i weld beth oedd yn digwydd. Fe wnes i, ond welais i ddim o Tareq ac es i yn fy mlaen i'r ysgol.

Pan o'n i yn y dosbarth, daeth fy ewythrod a dweud wrtha i y bydda i i ffwrdd o'r ysgol am dridiau. Doeddwn i ddim yn amau dim byd; aethon ni i mewn i'r car... Dywedodd fy ewythr wrth y gyrrwr i ddiffodd y newyddion. Yna dechreuais i amau rhywbeth, gan fod fy ewythr wrth ei fodd â'r newyddion. Cyrhaeddon ni adre, ac roedd criw mawr o bobl ar hyd y lle. Cyn i fi fynd i lawr, gwelais fy nhad yn eistedd ar y gadair yn crio. Dyna'r tro cyntaf i fi weld fy nhad yn crio, ac roedd yn dal y llun o fy mrawd Tareq. Gofynnais iddo: "Dad, cafodd fy mrawd ei ferthyru?" Meddai: "Duw trugarha wrth ei enaid."

Daeth yr ambiwlans ag e o'r ysbyty... rhedon ni i gyd ato i ddweud hwyl fawr. Roedd e'n cysgu fel angel, gyda'r llyfr roedd e'n dal i'w gario yn ei ddwylo.

Gwrthododd fy nhad i ni fynd gydag e i'r fynwent, ond es i i'r car a mynd yno i ddweud hwyl fawr wrtho, a darllen gweddi Fatiha ar ei fedd... Es i bob dydd am dri mis, i eistedd ar ei fedd a siarad gydag e.

Gyda'r nos, rwy'n syllu ar ei lun yn yr ystafell, gyda'r geiriau "Y merthyr arwrol – Tareq" wedi'u hysgrifennu arno.

Ers i fy mrawd fael ei ferthyru, rydw i wedi dod i arfer gyda chysgu yn y gwely ar fy mhen fy hunan. Roedden ni'n arfer cysgu un ar ben y llall, coesau ar ben pennau, ac weithiau byddai'n teimlo fel pe bai ein coesau a'n breichiau wedi'u cymysgu'n llwyr gyda'i gilydd. Ond heddiw mae gen i wely i fy hunan.

Wna i fyth anghofio fy mrawd.

**4. Alaa Hajjaj**
**Ganed 1996**
**Al Shuja'iyeh/Al Montar**

Rwy’n teimlo fel rhedeg, rhedeg, rhedeg yn y strydoedd tan i fy mhenwisg hedfan yn yr awyr, a minnau’n hedfan ar ei hôl...

Weithiau rwy’n teimlo fel ymddwyn yn hollol wallgo, ond alla i ddim... Dyma’r tro cyntaf i fi ddweud pethau fel hyn, efallai nad ydyn nhw’r math o bethau rwy’n eu dweud, neu efallai eu bod nhw’n bethau na alla i eu mynegi, neu rwy’n ofni eu mynegi...

Pam mae fy rhieni’n fy nhrin i fel hyn? Rwy’n edrych ar y merched yr un oed â fi, y ffordd maen nhw’n byw eu bywydau, ac rwy’n eiddigeddus ohonyn nhw. Hoffwn i pe bawn i’n gallu bod fel nhw, gyda’u hyder a’u rhyddid.

Hoffwn i pe bai llong yn fy nghludo i ynys bell ac yn fy nhaflu i’r lan, ymhell o’r byd, o bopeth, yn enwedig y rhyfel.

A sôn am ryfel, dim ond un pentwr oedd y rhyfel, Mam oedd y llall. Wna i fyth ddeall pam y byddai Mam yn disgrifio pethau i fi o hyd, pethau ro’n i eisoes wedi’u gweld!

Roedd y ddwy ohonon ni’n sefyll ar y balconi; bomion nhw dŷ’r cymdogion a bu farw un ohonyn nhw... Gwelson ni’r tŷ’n cael ei ddinistrio, a’r corff yn hedfan i’r stryd, a gallwch ddychmygu beth ddigwyddodd i’r teulu wedi hynny.

Ai dyna’r diwedd? Nage.

Dechreuodd mam ddweud wrtha i fod tŷ’r cymdogion wedi’i fomio, a bod ein cymydog wedi hedfan o’r tŷ, fel pe bai hi’n siarad gyda rhywun nad oedd yn sefyll gyda hi ar y pryd! Ac aeth hynny ymlaen, straeon gan Mam drwy’r rhyfel, a dim ond fi yn gwrando.

Bydden ni’n eistedd yn gwylio’r teledu, a bydden nhw’n dweud bod bom neu ddinistriad yn rhywle. Byddai’r adroddiad yn chwarter awr o hyd, ond byddai ail-adroddiad Mam yn DDWY AWR... Byddai’n siarad am yr adroddiad fel tasen i ddim yno gyda hi yn ei wylio. Dechreuais amau fy hunan – o’n i’n eistedd gyda hi ai peidio? Rwy’n taeru fy mod i yno, ro’n i yno go iawn, ro’n i’n eistedd drws nesaf iddi!

Ta waeth, diolch byth nad yw Mam gyda chi, neu byddai’n rhoi cur pen i chi gyda’i straeon.

**5. Amanee A Shorafa**
**Ganed 1992**
**Al Remal**

Awyren yw Gaza sy'n cario pobl ac yn teithio tua'r anhysbys; heb lanio yn y nefoedd nac yn uffern. Does neb yn gwybod pryd y bydd hi'n glanio, ac mae pobl yn aros yn grog yn yr awyr fel yna, ers dwywaith hyd fy oes.

Mae pob diwrnod yr un fath yma; does dim byd newydd. Y peth symlaf yw bod breuddwydion a dymuniadau yn anodd eu gwireddu yn Gaza, yn enwedig os ydyn nhw fel fy rhai i, sef bod yn artist, canu ac actio a chwarae cerddoriaeth. Yn Gaza, yr unig gerddoriaeth yw cerddoriaeth marwolaeth, a dawnsio ar glwyfau...

Pe bawn i'n mynd dramor i astudio cyfarwyddo, sut byddai cymdeithas yn edrych arna i? Ar ôl i fi raddio, a fydd y wlad fel mae hi nawr, neu'n waeth? Mae popeth yn niwlog ac yn aneglur i fi, fel wynebau pobl ar ddydd Gwener ym marchnad Feras. Ac fel y diwrnod dechreuodd y rhyfel...

Y Weinyddiaeth Pasbortau oedd yr ergyd gyntaf. Ro'n i a fy nghyfaill wedi dod allan o arholiad; dyna oedd diwrnod cyntaf arholiadau'r tymor cyntaf. Eisteddon ni o flaen giât yr ysgol yn sgwrsio wrth aros am weddill ein ffrindiau, er mwyn i ni gael mynd adre gyda'n gilydd. Yn sydyn, roedd cyfres o ffrwydradau... Ro'n i mewn sioc, ac yn teimlo fel pe bawn i'n mynd i farw. Fe redon ni i ffwrdd ac ro'n i'n ofnus iawn... Gwelais y menywod yn rhedeg ac yn sgrechian ac yn taro eu hwynebau... a doedd gen i ddim syniad beth oedd yn digwydd. Ro'n i'n teimlo fel na allwn i sefyll ar fy nghoesau, a dechreuodd y byd droelli... Llewygais a stopio teimlo dim byd. Yna deffrais gan glywed llais fy ffrind yn gweiddi: "Amani, er mwyn Duw, deffra!"

Pan ddeffrais, dechreuais grio, heb wybod ble i fynd na beth i'w wneud. Daeth merch hŷn i fy helpu, a mynd â fi adre. Cyn gynted ag y cyrhaeddais i, cofleidiodd mam fi. Ro'n i'n flinedig iawn, ond ymlaciais yn yr eiliad honno. Roedd angen i fi gwympo i freichiau rhywun. Y peth anoddaf yw teimlo bod eich marwolaeth yn agos.

Roedd y rhyfel yn ysbryd du a oedd yn gorchuddio'r dydd a'r nos yn Gaza. Roedd yn gwthio ei uffern ar bobl, ar y ddaear a'r awyr a'r aer rydyn ni'n ei anadlu.

Ar ôl y rhyfel, cefais chwalfa feddyliol; cymerodd ton fawr wyllt fy enaid. Ro'n i'n meddwl na fydden i'n gallu dod yn ôl i'r wyneb. Ond roedd fel pe bai llaw yn estyn tuag ata i drwy'r theatr; cylch rwber i fy nhynnu i fyny o dan y don.

Heddiw, rwy'n teimlo cysur nad ydw i wedi'i deimlo ers amser maith... ac rwy'n gobeithio y galla i aros fel hyn am byth.

**6. Amjad Abu Yasin**
**Ganed 1993**
**Gwersyll Ash Shati'**

Dim ond diwrnod cyn y rhyfel, roedd Gaza i fi yn llawn llawenydd a hapusrwydd... Mynd ar deithiau ac i'r môr... Roedd bywyd mor hapus... A do'n i ddim yn meddwl am ddim byd.

Un freuddwyd oedd gen i, sef y byddai Gaza'n datblygu ym maes celf a chwaraeon. Ro'n i'n teimlo bod popeth yn iawn heblaw am y ddau beth yma, ond mewn gwirionedd doedd dim byd yn iawn – dim celf, chwaraeon, iechyd na diogelwch, mae'r cyfan yr un peth.

Nid dinas fy mreuddwydion yw Gaza bellach, oherwydd fy mreuddwyd i yw bod yn actor. Ydw i am fod yn actor i ugain o bobl yn Gaza? Ac aros tan i'r ffin agor?!

Tasai pethau yn fy nwylo i, byddwn i'n ceisio cymaint â phosib i leihau rhyfeloedd, marwolaeth a thrais. Mae pob diferyn o waed sy'n cwympo i'r llawr yn warth. Mae'n gas gen i'r tawelwch a'r goddefgarwch anarferol sydd gan bobl; hoffwn i be pai Gaza gyfan yn deffro yfory ac yn cerdded ar hyd y strydoedd yn gweiddi'n groch: "Digoooooooooooooon!!!!"

Pan ddechreuodd y rhyfel, roedden ni'n chwarae pêl-droed ac roedd yr awyrgylch yn rhyfedd, roedd yr awyr yn goch... Yn sydyn, clywon ni sŵn awyren; glywais i erioed y fath sŵn. Roedden ni wedi dychryn, a gorweddon ni ar y llawr yn aros i farw. Ar ôl hynny, clywon ni sŵn ffrwydrad mawr, ychydig fetrau oddi wrthon ni. Dechreuon ni edrych i wynebau ein gilydd, a dweud hwyl fawr yn fud.

Ond dim ar ein cyfer ni oedd y bomio... Roedd yn targedu car o ddynion roedden nhw'n chwilio amdanyn nhw ar y ffordd uwchlaw. Ond fe arhoson ni'n gorwedd i aros am yr ail roced, ac allwn i ddim meddwl am ddim byd ond am fy nau frawd hŷn a oedd gyda fi. Roedd mwy o ofn gen i drostyn nhw na fy hunan, a dw i'n credu eu bod nhw'n teimlo'r un fath.

Codais fy esgidiau chwaraeon a rhedeg o'r cae. Wrth i fi redeg, sefais ar ddarn o shrapnel. Tynnais i e o fy nghoes a mynd allan i'r stryd, a dyna lle gwelais i nhw. Tri merthyr, ac allech chi ddim eu hadnabod nhw.

Roedd coesau'r cyntaf ar dân, roedd e'n edrych arna i a finnau arno fe. O bawb oedd yno, roedd e'n fy rhybuddio i am rywbeth nad o'n i'n ei ddeall... Dyna pryd sylweddolais i ei fod e'n fy rhybuddio i am gar oedd yn dod yn gyflym tuag aton ni.

Dyna pryd ddeallais i wir ystyr marwolaeth, ac yn lle tri merthyr, gallai pedwar wedi bod.

Ro'n i'n syfrdan yn y fan a'r lle. Sefais yno'n gwylio, a phan ddeffrais i ar ôl pasio allan, rhedais adre.

Mae’r rhyfel wedi dod a mynd, ac rydyn ni’n dal i’w fyw. Y bobl dlawd sy’n dioddef bob tro, y bobl nad oes ganddyn nhw ddim byd i’w wneud â’r peth. Hyd yn oed pan mae ’na ddaeargryn neu lifogydd mewn unrhyw wlad, y bobl dlawd sy’n dioddef, fel pe bai ’na gynllwyn byd-eang yn eu herbyn.

Ar ôl y rhyfel, fe ddechreuodd bawb ddweud celwyddau wrth bawb arall... celwyddau... anwiredd... twyll... anonestrwydd.

Er budd a safle, mae’r arweinwyr a’r bobl bwerus yn lladd ac yn troseddu heb feddwl dwywaith na theimlo dim euogrwydd... Mae pobl dlawd yn mynd yn dlotach a’r bobl sâl yn salach.

Dw i wedi colli ffydd ym mhob slogan... Nid yw’r araith fwyaf gan yr arweinydd mwyaf yn ddim byd ond geiriau gwag, wnaiff pob araith yn y byd ddim cynhesu person oer neu rywun sy’n cysgu mewn pabell ar ôl rhyfel. Yr argyfwng yw’r ffaith bod y byd i gyd yn ein gwylio ni, fel pe bai dim byd yn digwydd, ac maen nhw’n dal i wneud areithiau!

**7. Anas Abu Eitah**
**Ganed 1995**
**Ash Sheikh Radwan**

Ers i fi fod yn blentyn, dw i wedi breuddwydio am gael bod yn bêl-droediwr enwog. Ro'n i'n credu y byddwn i'n cyflawni fy mreuddwydion... ond heddiw mae 'na filiwn o rwystrau yn fy llwybr. O'r blaen, doedd dim caeau chwarae i oedolion na phlant hyd yn oed, ac yna daeth y gwarchae a gwaethygu popeth.

Pe bawn i'n Brif Weinidog, byddwn i'n rhoi'r mwyaf o sylw i'r Weinyddiaeth Ieuenctid a Chwaraeon. Byddwn i'n adeiladu caeau chwarae ym mhob man, yn enwedig mewn ysgolion, a byddwn i'n gadael i'r plant chwarae'n rhydd, heb i geidwad yr ysgol eu taflu allan. Byddwn i'n cael gwared â'r holl ffioedd clybiau ac yn cynnal a chadw pob parc.

Ond dim ond geiriau ydy breuddwydion, diogelwch, gobaith a dyfodol, sy'n colli eu hystyr mewn dinas sy'n lladd y freuddwyd leiaf bosib.

Gôl-geidwad o'n i, a byddai fy ffrind Mohammed yn dweud wrtha i o hyd: "Dw i'n mynd i gael gôl," ond byddwn i'n rhwystro ei goliau o hyd.

Ar 7 Ionawr 2009, un diwrnod yn ystod y rhyfel, ro'n i'n eistedd wrth ddrws ein tŷ ac roedd hi'n gymylog, a daeth rhywun i ddweud wrtha i fod fy ffrind Mohammed wedi'i ferthyru; wrth gwrs, do'n i ddim yn credu'r peth. Es i i chwilio am fy ffrind, ac roedd gen i ofn mawr o'r syniad o farwolaeth.

Cyrhaeddais i'r mosg, a gwelais fy ffrind agosaf mewn bywyd, Mohammed, wedi'i lapio ym maner Palestina ac wedi'i rwygo'n ddarnau. Criais i lawer, lawer, ac ro'n i'n drist gan na allwn ni ei gofleidio neu ei gusanu, a dechreuais gydio ynddo. Aethon ni ag e i'r fynwent a'i gladdu, ac arhosais i'n eistedd yno, yn dweud wrtho fy mod i'n ei garu a fy mod i'n drist iawn ei fod wedi fy ngadael ar fy mhen fy hunan yn y byd yma.

Wrth i fi adael y fynwent roedd yna fomio trwm, ac ro'n i'n teimlo fel pe bai angel marwolaeth yn fy nilyn ac yn gwrthod fy ngadael i fod, ond diolch i Dduw, dw i dal yn fyw.

**8. Ehab Elayan**
**Ganed 1994**
**Stryd Al Saftawi**

Ers i fi ddod yn ymwybodol o'r byd am y tro cyntaf, mae fy meddwl wedi bod yn gyfyngedig. Bywyd i fi oedd cael fy ngeni, tyfu i fyny, priodi, cael plant, gweithio, eu magu nhw, eu bwydo nhw, eu haddysgu nhw, eu gweld nhw'n priodi, ac yna marw.

Ond ar ôl y rhyfel, sylweddolais i fod bywyd yn llawer anoddach na hynny. Daeth yn amlwg bod gan bob cam bach rydyn ni'n ei gymryd filiwn o glymau tu ôl iddo.

Mae gen i ofn na fydda i'n gallu dod o hyd i waith pan fydda i'n tyfu i fyny, oherwydd ble bynnag dw i'n mynd, dw i'n gweld dynion yn eistedd o flaen eu tai heb ddim i'w wneud. Dyna sy'n fy nychryn ac yn fy nhristáu i fwyaf. Dyna pam mae plant Gaza wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb, a'u plentyndod wedi'i gipio oddi arnyn nhw ers eu geni.

Roedd fy mam yn arfer dweud o hyd: "Ehab yw fy mab gorau," gan fy mod i bob amser adre, byth yn cael problemau.

Pan ddechreuodd y rhyfel, fe wnaeth fy nhad ein cloi ni yn y cartref gan ei fod yn ofni droson ni cymaint. Ddwy awr yn ddiweddarach ro'n i wedi diflasu. Es i allan i gerdded o gwmpas ein tŷ. Ond y tro yma roedd y daith yn wahanol... Ro'n i'n ofni cerdded yn agos at geir rhag ofn iddyn nhw gael eu bomio... Ac ro'n i'n edrych i fyny at yr awyr o hyd, rhag ofn i awyren ddod â fy momio i heb yn wybod i fi. Ro'n i wedi fy nychryn gan ofn, er nad oedd llawer o weithgarwch yn ardal Saftawi. Rhedais i 'nôl adre fel taswn i'n dianc oddi wrth rywbeth ofnadwy, ac arhosais i adre tan i'r rhyfel orffen.

Ar ôl y rhyfel, newidiodd fy mywyd i lawer. Fe wnaeth fy mherthynas gyda phobl a'r cymdogion wella. Daeth dynion y gymdogaeth i fy nabod i, a dechreuais chwarae draffts gyda'r henoed. Dechreuais dreulio fy holl amser tu allan i'r tŷ, yn methu aros yn y tŷ am ennyd. A stopiodd fy mam ddweud: "Ehab yw fy mab gorau."

Sylweddolais i nad o'n i'n bodoli cyn y rhyfel, ond ar ôl y rhyfel, dyma fi – Duw amddiffyna fi! – yn y ddinas, yn anadlu ei haer, yn canu, yn dawnsio ac yn crio gyda hi, ac mae bywyd yn mynd yn ei flaen ymlaen...

**9. Tamer Najem**
**Ganed 1993**
**Ash Sheikh Radwan**

Bocs matsys yw Gaza... a ni yw'r matsys tu mewn iddo.

Pan ddechreuodd y rhyfel ar Gaza, roedd y cyfryngau i gyd yn canolbwyntio arnon ni; roedd Al-Jazeera, Al-Arabiyyah a'r holl sianeli lloeren yn canolbwyntio ar Gaza, a doedd y goresgynwyr ddim yn ein gadael i fod. Prysurodd y byd i gyd i edrych ar Gaza a'r hyn sy'n digwydd ynddi. Yn sydyn, ysgrifennodd Al-Jazeera "Newyddion yn torri: Marwolaeth Mohammed Al Hindi..." A doedd e ddim yn normal oherwydd fy ewythr yw'r Mohammed hwnnw, brawd fy mam. Dyna'r tro cyntaf i fi weld y sgrechian yn symud o'r darllediad byw ar y teledu i'r tŷ... Sgrechian a gweiddi a dagrau... Y cyfan wedi'i gymysgu gyda'i gilydd, a symudodd o'n tŷ ni i'r stryd, a llewygodd fy Mam. Ychydig yn ddiweddarach canodd y ffôn; fy ewythr arall yn ffonio i ddweud wrthon ni fod Mohammed wedi'i ferthyru. Doedd e ddim yn gwybod bod y byd i gyd yn gwybod am y newyddion. Mae'r teledu yma'n ofnadwy... Cyn i berson gael ei saethu, pan fydd y bwled ar ei ffordd at ei frest, mae'r teledu eisoes wedi darlledu'r newyddion.

Ond y dyddiau yma, mae'r sianeli'n eistedd yn segur... yn gweddïo i Dduw anfon rhyfel arall ar Gaza, fel bod ganddyn nhw waith!

Ta waeth, dechreuon ni i gyd grio'n chwerw dros fy ewythr a'i gofio a siarad amdano... Fe garion ni 'mlaen i siarad amdano am amser hir. Yna, daeth y siarad yn llai a llai, wrth i farwolaeth ddod yn normal yn Gaza.

Ar ôl y rhyfel, do'n i ddim yn poeni mwyach pe bawn i'n byw neu'n marw. Ar ôl yr hyn welon ni yn y rhyfel, does dim ots gen i am ddim byd. Oherwydd dw i'n credu mai'r bonws mwyaf yw bob diwrnod dw i'n byw, ac mae'r holl fywyd dw i'n ei fyw ar ôl y rhyfel yn ychwanegol, achos gallwn i fod wedi marw ar unrhyw eiliad.

Wyddoch chi, mae'r ddinas yma'n fy ngwneud i'n sâl er fy mod i'n ei charu hi, ac mae'r bobl yn fy ngwneud i'n sâl hefyd. Weithiau dw i'n teimlo fy mod i'n nabod y miliwn a hanner o bobl sydd yn Gaza. Does dim byd newydd; mae'r un diwrnod yn cael ei ailadrodd bob dydd. Dw i'n teimlo fel teithio, fel newid yr olygfa a'r wynebau. Pan fydda i'n deffro bob bore, dw i'n gweld y polyn trydan yn fy wyneb... Hoffwn i ddeffro ryw ddydd a bod y polyn ddim yno... Bob dydd mae Abu Ibrahim yn sefyll wrth ddrws yr archfarchnad, ac mae Abed y gwerthwr ffa yn gwerthu ei ffa ac mae Abu El Abed yn eistedd wrth ddrws ei dŷ, yn ofni y bydd y tŷ'n dianc... Mae Um Ibrahim yn sefyll gydag Um Hassan... Dw i'n nabod y gyrwyr tacsi bob un, dw i'n gwybod pwy sy'n mynd â chi i'r ddinas a phwy sy'n mynd i'r traeth... Mae'n llethol!

Yr unig awr sy'n wahanol yn fy mywyd yw'r awr pan fydda i'n dod i ymarfer theatr. Daeth hynny'n waith ac yn genhadaeth i fi, dw i ar bigau'n aros amdano... Heb y theatr, byddwn i wedi colli arni. Pan fydda i'n tyfu i fyny, dw i eisiau bod yn actor enwog. Dw i wrth fy modd gydag actio ers i fi fod yn blentyn... Ond byddai pob sefydliad ro'n i'n mynd iddo pan o'n i'n blentyn yn fy nhaflu i allan ychydig ddyddiau'n ddiweddarach... Ond mae'n wahanol y tro yma.

**10. Taima'a Okasha**
**Ganed 1997**
**At Tuffah**

Macaroni, mujadara, nŵdls a chaniau o bob lliw a llun… Wedi'u gwneud ym Morocco, Tsieina, Sri Lanka, Pacistan, Somalia… a does dim ots am y dyddiad 'dod i ben'.

Yn y rhyfel, roedd y strydoedd yn llawn caniau gwag. Byddai llawer o blant yn anafu eu coesau ar y caniau gwag... Roedd y goresgynwyr yn arwain rhyfel arnon ni ar y ddaear ac yn yr awyr, ac roedden ni wedi datgan rhyfel chwyrn ar fwyd...

Roedden ni'n arfer bwyta ganwaith y dydd, o'r eiliad y bydden ni'n agor ein llygaid, o 6 y bore tan y diwrnod nesaf am 6 y bore, bydden ni'n bwyta. Ro'n i'n meddwl mai dim ond ein tŷ ni oedd fel 'na, ond pan ofynnais i, fe ddywedon nhw fod Gaza gyfan wedi mynd yn wyllt am fwyd.

Ro'n i'n meddwl y byddai bod mewn rhyfel a gweld y merthyron a'r dinistr yn effeithio ar awydd pobl am fwyd, ond mae fel pe bai'r ofn, yr arswyd a'r poeni yn gwneud i bobl fod yn fwy llwglyd ac maen nhw'n bwyta mwy. Efallai ei fod gan fod y teulu cyfan yn ein tŷ ni, yn enwedig y merched. Bydden nhw'n cystadlu i weld pwy allai wneud y bwyd mwyaf blasus. Ac allai fy nhad druan ddim dal i fyny, yn cario bagiau o fwyd o bob lliw a llun. Roedd y bwyd bydden ni'n ei fwyta mewn ugain diwrnod yn ddigon am flwyddyn. A'r broblem oedd, bob tro y byddwn i'n dweud nad o'n i am fwyta, byddwn i'n bwyta mwy.

Pan fydda i'n hŷn, dw i eisiau bod yn newyddiadurwr neu'n gyfreithiwr neu'n brif weinidog. Newyddiadurwr er mwyn gallu tynnu lluniau o harddwch a symlrwydd Gaza, oherwydd dw i wrth fy modd gyda hi, dw i wrth fy modd gyda'i halen, y tywod a'r aer, ac alla i ddim dychmygu byw yn unman arall. Cyfreithiwr er mwyn gallu amddiffyn y bobl ddifreintiedig a chamdriniedig yn y ddinas yma, achos dw i ddim yn hoffi gweld neb yn dioddef ynddi. A dw i'n dymuno bod yn Brif Weinidog er mwyn gallu gorfodi cyfraith a threfn ar y ddinas, oherwydd dyna ble mae'r ateb yn dechrau...

**11. Rawand Ja'rour**
**Ganed 1997**
**Al Daraj**

“Ymlaciwch, ferched, peidiwch â bod ofn – dim ond sŵn saethu di-bwrpas yw hwn.” Dyna beth ddywedodd ein hathrawes wrthon ni pan ddechreuodd y bomio. Ar ôl peth amser, canodd ei ffôn symudol a dywedodd ychydig eiriau yn unig: “120 o ferthyron??!!” Taflodd ei ffôn symudol i’r llawr a dweud wrthon ni i gyd: “Ewch adre, bob un ohonoch chi.”

Cyn gynted ag aethon ni i’r iard, gwelon ni’r rhieni, rhai ohonyn nhw yn eu pyjamas, rhai yn eu crysau isaf a rhai yn droednoeth... Roedden ni’n ofnus iawn. Roedd fy nwy chwaer a fi yn aros am Dad, ond roedd e’n hwyr iawn... Felly penderfynon ni fynd adre ar ein pennau ein hunain, er ei bod yn daith hir.

Ar y ffordd fe welais i rywbeth am y tro cyntaf erioed: merthyr yn cael ei gario ar arch wedi’i lapio ym maner Palesteina, gyda baneri o’i gwmpas a phobl yn crio, ond y peth rhyfedd oedd y ffaith nad oedd llawer mwy na 30 o bobl yn yr angladd. Fel arfer mae miloedd yn angladdau merthyron! Teimlais yn yr eiliad honno fod trychineb fawr iawn yn digwydd yn y wlad.

Ro’n i’n ofni dros Dad, do’n i ddim eisiau iddo ddod i’n casglu ni oherwydd ro’n i’n ofni y byddai’n cael ei daro gan roced. Ro’n i hefyd yn ofni marw, a do’n i ddim eisiau marw nawr, oherwydd byddai’n drychineb pe bawn i’n marw a neb yn dod i fy angladd!

Dechreuais redeg adre, ac roedd pobl yn rhedeg o’n cwmpas ni fel pe bai’n Ddydd y Farn. Doedd neb yn gwybod i ble roedden nhw’n mynd, oherwydd wnaeth sŵn y rocedi ddim stopio. Bob ychydig eiliadau, byddai roced yn cwympo ac yn ysgwyd y ddaear.

Ro’n i’n teimlo nad yr un strydoedd oedd y strydoedd, nad yr un bobl oedd y bobl; golygfeydd, synau ac arogleuon dieithr.

Ar ôl y rhyfel, newidiodd llawer o bethau yndda i. Ro’n i’n casáu mynd i’r ystafell ymolchi. O’r eiliad dw i’n mynd i mewn, alla i ddim aros i redeg o ’na. Oherwydd adeg y rhyfel, ro’n i’n ofni y byddan nhw’n taro roced ar ein tŷ pan o’n i yn yr ystafell ymolchi. Yno, byddai’r sylw arnoch chi a gallwch chi ddychmygu...

Fe wnes i hefyd ddechrau casáu’r rhes yn y bore yn yr ysgol. Ro’n i yn y rhes pan ddechreuodd y rhyfel, a dyna pam dw i’n teimlo hyd heddiw bod y munudau yn y rhes yn oriau o ofn a phryder. Mae’r ysgol i gyd yn un pentwr i fi, ac mae’r rhes yn un arall...

Dechreuais i gael breuddwydion brawychus. Drwy’r nos mae gen i wrthdaro y tu fewn i fi, rhwng yr awydd i gysgu a’r ofn hunllefau.... Mae cwsg bellach yn fwystfil sy’n cuddio tu ôl fy amrantau. Dw i’n aros fel ’na tan y bore; dw i ddim yn gwybod pryd gysgais i a phryd ddeffrais i.

Dw i eisiau bod yn actores, ond mae’n freuddwyd anodd ei gwireddu yn Gaza, yn enwedig i ferched... Dw i’n dweud wrth fy hunan ei bod hi’n drueni i bobl Gaza gael eu hamddifadu o fy noniau, oherwydd gallwn i ddod yn actores bwysig... Ond os nad ydyn nhw fy eisiau i, i’r diawl â nhw, fe af i i unrhyw wlad ac actio yno!

Mae pobl Gaza’n cael eu hamddifadu o bopeth, p’run bynnag – dydy e ddim yn stopio gyda’r theatr. Weithiau dw i’n meddwl, prin y mae pobl Gaza’n gallu dod o hyd i fwyd; sut maen nhw’n mynd i fynd i’r theatr?

Chi'n deall? Hoffwn i gael byw mewn cymdeithas sifil a democrataidd gyda heddwch, ac ugain o sinemâu, a gwylio ffilmiau o hyd a hedfan gyda fy nychymyg a breuddwydio.

**12. Reem Afana**
**Ganed 1996**
**Stryd Al Saftawi**

Pan o’n i’n ifanc, ro’n i’n arfer teimlo mai fi oedd y plentyn hapusaf yn y byd, ond y mwyaf dw i’n tyfu ac mae fy meddwl yn tyfu, y mwyaf mae fy mhryder yn tyfu, oherwydd dw i’n dechrau deall pethau nad o’n i’n eu deall o’r blaen. Dechreuais ddeall ystyr plentyn difreintiedig.

Yr hyn sy’n fy ypsetio ac yn gwneud i fi grio fwyaf yw dagrau plant – pob plentyn yn y byd, waeth beth yw eu cenedligrwydd, crefydd neu liw. Pan fydda i’n hŷn, dw i am fod yn bediatregydd, a dyna’r gobaith sy’n fy ngwthio i mewn bywyd. Er gwaetha’r ffaith fy mod i wedi cael llond bol, fy mod i wedi diflasu ac yn drist, gan nad oes bywyd gan Gaza mwyach...

Ddoe, ro’n i’n eistedd yn yr ysgol a chlywais sŵn awyrennau. Ro’n i wedi dychryn, ac eisiau rhedeg o’r ysgol. Ro’n i’n teimlo fel taswn i ar fin marw wrth i fi gofio’r rhyfel. Wnaiff golygfeydd y rhyfel ddim gadael fy meddwl.

Ar drydydd diwrnod y rhyfel, roedd fy nheulu’n eistedd gyda’i gilydd, yn siarad am yr hyn oedd yn digwydd yn y rhyfel, ac roedd fy nain yn ein cysuro ni fel na fydden ni’n ofni. Roedden ni wedi ymdawelu, er bod synau’r rocedi yn dal i fynd, ond roedd llais cynnes fy nain yn tawelu ein meddyliau.

Canodd y ffôn... Doedd y llinellau heb gael eu dal yn y rhyfel... Felly pan glywon ni sŵn y ffôn roedden ni’n hapus...
-Helo?
-Ie?
-Dyma Fyddin Amddiffyn Israel. Mae ganddoch chi bum munud i glirio’r tŷ, er eich lles chi, rydyn ni wedi’ch rhybuddio chi.

Allwn i ddim sefyll ar fy nghoesau mwyach. Dechreuodd pawb yn y tŷ weiddi... Fy nain oedd y cyntaf i redeg o ’na! Dyna’r tro cyntaf i fi ei gweld hi’n symud mor gyflym. Cydiodd fy nhad yndda i a fy chwiorydd a dweud wrthon ni i beidio â bod ofn.

Roedd e’n tynnu arna i adael, ond byddai ar ben arna i taswn i ddim yn mynd â fy nhedi bêr gyda fi. Ro’n i’n teimlo y byddwn i’n ei fradychu pe bawn i’n ei adael o dan y bomio. Fe ddihangais o ddwylo dad a rhedeg at fy nhedi, ei gymryd yn fy mreichiau a gadael.

Aethon ni’n bell, bell o’r tŷ, ac eistedd i lawr i aros am y pum munud.

Dyna’r pum munud hiraf mewn hanes... Yna roedd yn ddeg munud... Roedden ni’n teimlo fel pe bai blynyddoedd wedi mynd heibio.

Ro’n i mewn corwynt. Roedd meddyliau a breuddwydion yn chwyrlio o gwmpas fy meddwl ac roedd y byd yn troelli. Ro’n i’n teimlo bod y freuddwyd o gael bod yn feddyg yn bell, bell i ffwrdd.

Daliais yn y tedi a chofio fy hunan yn fach, yn chwerthin o hyd.

Dw i eisiau mynd ’nôl i fod yn fach, ac aros yn fach, dw i ddim eisiau tyfu i fyny.

Ond yr unig beth oedd yn gysur i fi oedd cariad y bobl na wnaeth ein gadael ni am eiliad. Mae Gaza’n llawn cariad.

**13. Reema El Sadi**
**Ganed 1995**
**Ash Sheikh Radwan**

Naw oed o’n i pan ddychwelon ni i’r Emiradau. Dyna’r tro cyntaf i fi ymweld â Gaza. Roedd y car yn symud ar hyd y stryd ac ro’n i’n edrych drwy’r ffenest. Do’n i ddim yn hoffi dim byd am y ddinas. Pan oedden ni’n aros wrth oleuadau traffig, byddai llwyth o blant yn dod at y car i gardota, yn gwerthu gwm a bisgedi. Ro’n i’n casáu fy hunan ac eisiau mynd yn ôl i’r Emiradau.

Ond dw i wedi byw yn Gaza byth ers hynny a wna i ddim ei gadael, hyd yn oed pe bydden nhw’n rhoi dewis i fi rhwng Gaza a Pharis... Oherwydd fe welais i fod y cariad tu mewn iddi yn ddigon i’r byd i gyd, ac mai pobl yw llefydd, nid eu hadeiladau neu eu golygfeydd.

Byddai Mam yn siarad am Gaza o hyd pan oedden ni yn yr Emiradau. Ro’n i’n hoffi’r lle cyn i fi ei weld, ond unwaith i fi fyw yno, ro’n i’n ei hoffi fwy. Mae manylion iddi nad oedd Mam yn eu gweld. Ond mae’n gymaint o drueni... Y cyfan sydd ei angen arni yw diogelwch er mwyn bod y ddinas harddaf yn y byd.

Yn y rhyfel, cafodd mosg Taqwa a mosg Nour eu bomio, ac wedi hynny tŷ Abu El Qare’e. A thŷ Abu El Qare’e yw ein pwnc yma. Nhw yw ein cymdogion, ac fe wnaeth gwasanaethau cudd Israel fygwth eu bomio. Dywedodd pobl wrthon ni i aros ar y llawr gwaelod; mae’n fwy diogel, felly pan fyddan nhw’n bomio tŷ Abu El Qare’e fyddan nhw ddim yn ein taro ni.

Aethon ni i lawr i’r llawr cyntaf ac aros i’r fyddin fomio tŷ Abu El Qare’e... Ond bomion nhw fosg Nour yn ei le. Hedfanodd yr holl ffenestri, drysau a cherrig arnon ni pan oedden ni yn ein tŷ. Ces i fy anafu’n wael; cwympodd yr holl ddrysau ar fy mhen. Wrth gwrs, roedd ’na sgrechian ac roedd y tŷ mewn llanast llwyr.

Y diwrnod wedyn cawson ni gyfarfod teuluol a phenderfynu mynd yn ôl i’r fflat uchaf. Ac fe wnaethon ni hynny, symudon ni i’r llawr uchaf. Ond y tro yma, fe daron nhw fosg Taqwa. Hedfanodd yr holl wydr a cherrig arnon ni yn y llawr uchaf... felly penderfynon ni fynd i lawr i’r llawr gwaelod am ei fod yn fwy diogel. Ac fe eisteddon ni ac aros i’r fyddin fomio tŷ Abu El Qare’e, a’r noson honno fe wnaethon nhw hynny.

Taflon nhw’r roced gyntaf ac yna’r ail, ond wnaeth hi ddim ffrwydro... a phe baen nhw’n taflu roced arall a tharo’r un na wnaeth ffrwydro, byddai’r gymdogaeth gyfan wedi’i dileu... A fyddai pobl wedi dweud: “Dyma ble OEDD cymdogaeth Abu El Qare’e.”

**14. Sami El Jerjawi**
**Ganed 1994**
**At Tuffah**

Yr awr yn y dydd dw i'n ei chasáu fwyaf yw deuddeg y prynhawn. Bob tro mae'r arholiadau'n dechrau, dw i'n teimlo y bydd rhyfel yn dechrau unwaith eto. Alla i ddim ateb dim un o'r cwestiynau arholiad, ac mae meddyliau'n arnofio yn fy mhen tan eu bod yn fy ngwneud i'n sâl... Yna dw i'n gofyn i'n hunan, ydy'r hyn sy'n digwydd i fi yn normal, neu ydw i'n sâl?

Mae pobl yn dweud bod môr Gaza'n golchi pob poen, ond mae fy mhoen i'n fwy na'r môr. Oherwydd y tro diwethaf i fi fod yn y môr, ro'n i gyda fy ffrind; roedden ni'n nofio, yn chwarae ac yn cael hwyl... Ond nawr alla i ddim mynd i'r môr mwyach.

Mae stryd Talateeni yn agos i'r orsaf betrol, ac roedd petrol yn ddrud ac yn meddwl llawer i bobl – roedd cael litr o betrol yn beth mawr, roedd 'na ryfel, roedd pobl yn ofni prynu dim byd. Anfonodd fy nhad fi i brynu petrol. Ar ôl i fi ei brynu, es i i dŷ fy ffrind Zaki sy'n byw'n agos at yr orsaf. Ro'n i'n gweld ei eisiau, ac roedd deg diwrnod wedi bod ers i fi ei weld ddiwethaf.

Cyrhaeddais i ei dŷ ar frys gan fod fy nhad eisiau i fi ddychwelyd yn gyflym gyda'r petrol. Es i i mewn i'r tŷ heb gnocio ar y drws. Mae ei fam yn fy ystyried fel mab iddi, a finnau yr un fath. Dywedais helo wrthi ac wrth fy ffrind, rhoddais gwtsh iddo a'i gusanu, dweud helo wrth ei frodyr a gadael yn sydyn.

Pan oedd ugain metr rhyngof i a'r tŷ, clywais sŵn awyren, ac yna sŵn roced yn cwympo ar dŷ fy ffrind. Dechreuodd pobl sgrechian yn dweud bod y tŷ wedi cael ei fomio. Allwn i ddim credu'r peth! Edrychais i'n ôl ar dŷ fy ffrind a gweld tân a mwg yn dod ohono; welais i erioed ddim byd tebyg.

Rhedais i'n ôl i'n tŷ ni. Pan gyrhaeddais i, dywedodd dad wrtha i fod fy ffrind wedi marw. Naddo ddim... Dechreuodd pawb ddweud wrtha i fod fy ffrind Zaki wedi marw, a do'n i ddim yn eu credu nhw. Dyna pam na es i i'r angladd na'r ysbyty na'r fynwent, oherwydd wnaeth Zaki ddim marw.

Dw i'n siarad gydag e yn ystod y nos o hyd, wel ddim gyda fe – gyda ei lun. Dw i'n drist iawn gydag e am nad yw e'n dod i fy ngweld i, a hefyd dw i wedi stopio ymweld ag e yn ei gartref. Dw i'n siŵr nad yw e wedi marw, a dw i'n siŵr y bydd diwrnod y byddwn ni'n cwrdd unwaith eto... Yna bydda i'n ei feio e, oherwydd dw i'n gweld ei eisiau cymaint.

Mae gen i ffrind arall sy'n byw yn Rwsia, mae e'n dweud wrtha i o hyd am Rwsia a'r rhyddid a'r diogelwch mae'n byw ynddo... Dw i'n teimlo fel nad ydw i'n byw, dw i'n dechrau dymuno y byddwn i'n deifio i'r môr ac yn parhau i ddeifio a deifio tan fy mod i'n dod allan a chanfod fy hunan yn Rwsia.

**15. Sujoud Abu Hussein**
**Ganed 1995**
**Ash Sheikh Radwan**

Yr hyn dw i'n ei hoffi fwyaf am Gaza yw caredigrwydd a symlrwydd y bobl, a'r hyn dw i'n gasáu fwyaf yw eithafiaeth pleidiau gwleidyddol. Weithiau dw i'n teimlo bod gwrthdaro rhwng yr holl gariad a charedigrwydd yma sydd gan bobl, a'r drwg yma sy'n rheoli'r arwyneb. Pe bai pethau yn fy nwylo i, byddwn i'n datrys problem rhaniad Palesteina yfory.

Yn y rhyfel, fe laddon nhw un o arweinwyr mawr Hamas. Rhoddodd holl gyfryngau'r byd sylw i'r digwyddiad. Ond roedd y byd i gyd mewn un dyffryn, ac roedden ni mewn un arall. Oherwydd roedd Mody a Sallouma, fy mrodyr bach, a Dad wedi mynd i'n tir ni oedd drws nesaf i'r arweinydd Hamas hwnnw… Fe ffonion ni nhw filoedd o weithiau, ac fel arfer, doedd llinellau ffôn Jawwal ddim yn mynd trwyddo, a oedd yn gwneud i ni boeni mwy.

Dechreuodd mam gerdded 'nôl a 'mlaen ar hyd y balconi fel aderyn bach oedd wedi colli ei chywion. Dychmygodd y byddai'r balconi rhywsut yn achub Mody a Sallouma a Dad. Ro'n i'n teimlo'n bryderus iawn, dechreuais grio a mynd i lawr at fy modryb. Dechreuodd fy modryb dawelu fy meddwl... Dywedodd gelwydd wrtha i ei bod hi wedi eu ffonio nhw a siarad gyda nhw. Ro'n i'n gwybod nad oedd hi wedi siarad gyda nhw, ond roedd hi'n dal ynddo i ac yn crio, ac ro'n i'n crio hefyd. Pan es i i fyny i'n tŷ, gwelais fod Mam yn dal i gerdded ar hyd y balconi.

Anghofiais i ddweud wrthoch chi mai 5 a 7 oed oedd Mody a Sallouma... Roedden nhw'n arfer cysgu yn fy mreichiau, ac roedd fy enaid wedi'i gysylltu gyda nhw. Ro'n i'n teimlo ar y pryd bod fy enaid yn mynd i ddianc ac y byddwn i'n marw.

Ac a dweud y gwir, dim ond bryd hynny wnes i deimlo bod yna ryfel ar Gaza gan fy mod i'n brysur gyda'r cyfrifiadur o hyd, a dyna'r diwrnod cyntaf i fi fyw y rhyfel.

Awr yn ddiweddarach, roedd 'na gnoc ar ddrws ein tŷ ac roedd Dad 'nôl gyda Mody a Sallouma. Cymaint ag o'n i'n eu caru, dyma'r tro cyntaf i fi deimlo mor annwyl oedden nhw i fi, a chymaint na allwn i ddioddef bod oddi wrthyn nhw. Codais i nhw ar fy nghôl a'u cusanu fel taw dyna oedd y tro cyntaf i fi eu dal. Stopiodd fy mam gerdded 'nôl a 'mlaen ar hyd y balconi, a dyna'r tro cyntaf i fi deimlo ei bod hi'n caru Dad fel hyn.

Ar ôl y rhyfel, dechreuais feddwl pam mai ni sydd fel hyn, o'r byd i gyd?

Cymeron nhw ein tir a'n taflu ni o'n cartrefi... Ac am ein bod ni'n amddiffyn ein hunain, mae hyn i gyd yn digwydd i ni?

Does dim dŵr... dim trydan... dim ffonau... dim petrol... Beth ydyn ni i'r byd, ydyn ni ddim yn fodau dynol?

**16. Suha Al Mamlouk**
**Ganed 1995**
**At Tuffah**

Mae Gaza'n newid bob dydd, a dyna pam mae fy mreuddwydion yn newid o hyd. A bob tro y bydda i'n cymryd cam ymlaen, dw i'n cymryd can cam yn ôl.

Adeg ergyd gyntaf y rhyfel ro'n i ar fy ffordd adre o'r ysgol a do'n i ddim yn adnabod y ffordd... Yn sydyn daeth dyn i sefyll o fy mlaen a gofyn i fi: "Ble mae dy dŷ di?" Dywedais i wrtho ac fe gymerodd fi adre. Es i i lawr i'r tŷ yn gyflym a gofyn i fy Nhad: "Pam na wnest ti ddod i fy nôl i?"

Dywedodd mam: "Mae'n **normal**, cariad, cer i astudio."
Dywedais wrthi: "Does dim arholiadau; mae'r rhyfel wedi dechrau."

Y prynhawn hwnnw, fe daron nhw adeilad y llywodraeth wrth ein hymyl. Dywedodd mam: "Mae'n **normal**, rydyn ni wedi arfer â'r hyn sy'n digwydd i ni."

Rhedon ni i dŷ ein cymdogion, pawb yn gofalu am eu hunain. Ychydig funudau yn ddiweddarach, dechreuodd perthnasau'r cymdogion ddod yno ac roedd y tŷ'n orlawn gyda dros gant o bobl ynddo, ond roedd popeth yn dal i fod yn **normal** i fy mam.

Y bore wedyn, aeth Dad i brynu bara ac arhosodd yn y rhes am chwe awr, cyn dod adre gydag un pecyn o fara. Cafodd pawb hanner torth. Ac roedd mam yn dal i ddweud bod pethau'n **normal**.

Gyda'r nos, penderfynodd fy rhieni fynd i'r ysbyty i ymweld â'r bobl oedd wedi'u hanafu, ac fe es i gyda nhw. Yn yr ysbyty fe welon ni lawer o gyrff marw; roedd pedwar ar bob gwely, wedi'u gosod o dan ac ar ben ei gilydd. Dim ond dyna pryd ddywedodd mam: **"Dydy hyn ddim yn normal."**

Dydy'r rhyfel ddim drosodd, mae'r rhyfel yn fawr, ac fy ofn i yw tyfu i fyny gydag e. Dw i bob amser yn ofni rhyfel newydd. Os bydd balŵn yn byrstio, dw i'n ofni... Os bydd car yn taro'r brêc yn sydyn dw i'n neidio ugain metr... Ac os bydd plentyn bach yn gweiddi dw i'n gweiddi gydag e. Dw i'n aros yn effro drwy'r nos yn aros am wawr newydd... Ond bob bore pan ddaw, does dim yn wahanol i'r un fu ddoe.

**17. Ali Al Hassany**
**Ganed 1995**
**Stryd Al Saftawi**

Y peth dw i'n ei garu fwyaf yn Gaza yw ei bod yn wahanol i wledydd eraill. Mae gan wledydd eraill lawer o broblemau, newyn, gwarchae, rhaniad, goresgyniad, bomio, dinistr a marwolaeth, ond does ganddon ni ddim un o'r problemau yma... Dyna pam fy mod i'n caru Gaza llawer. Yn enwedig gan fod y garthffosiaeth a'r strydoedd yn lân ac mae'r bobl yn caru ei gilydd, mae'r prisiau'n rhad, mae pawb yn hapus ac mae'r pysgod yn iach a dydyn nhw ddim yn nofio mewn carthffosiaeth. Ac yn sicr wna i ddim marw o newyn, tlodi, na thrawiad ar y galon fel hanner fy nheulu... oherwydd cymaint o "hapusrwydd".

Dw i am ddweud cyfrinach fawr wrthoch chi dw i'n ei dal yn fy mrest ac wedi dal yn ôl rhag ei dweud ers i fi ddechrau siarad... y gyfrinach yw... Fi, gyfeillion, yw'r rheswm dros y rhyfel ar Gaza. Efallai y byddwch chi'n synnu pam: oherwydd ches i erioed freuddwyd na wnaeth ddod yn wir! Un noson cyn y rhyfel, breuddwydiais i fod y rhyfel wedi dechrau a bod ein tŷ wedi cael ei fomio, ac mai dim ond fi oroesodd. Y diwrnod canlynol, am 11:25, dechreuodd y cyrchoedd awyr ar Gaza.

Y sioc gyntaf ges i yn y rhyfel oedd pan guddiodd yr athro dewraf yn yr ysgol – yr athro Mathemateg – o dan ei ddesg gan ofn o'r eiliad gyntaf. Meddyliais, os yw'r athro dewraf yn cuddio o dan y ddesg... Beth ddylen ni ei wneud? Gwlychodd llawer o'r plant eu dillad. Dechreuais i sgrechian, a dechreuodd pawb sgrechian gyda fi. Ro'n i'n sgrechian am ein tŷ, ro'n i'n sicr ei fod wedi'i ddinistrio, ac am fy nheulu, ro'n i'n sicr eu bod wedi'u merthyru.

Rhedais i allan i'r stryd, i gael brysio 'nôl at fy nheulu, ond roedd yn rhaid i fi aros am ddwy awr i gar fynd â fi, ac yn y pen draw cerddais i adre. Yr holl ffordd, ro'n i'n dychmygu ein tŷ wedi'i ddinistrio a fy nheulu'n farw. Cyrhaeddais adre a doedd dim byd o'i le, roedd fy nheulu'n tynnu'r ffenestri i lawr fel na fydden nhw'n torri o'r pwysedd aer.

Ond hyd heddiw, dw i'n ofni y byddan nhw'n bomio ein tŷ. Dyna pam – a gallwch chi ofyn i fy mam – dw i'n cysgu ar ben tri matres, felly pan fydd bomio, bydd y matresi'n amsugno'r trawiadau a fydd dim byd yn digwydd i fi. Mae'n gas gen i freuddwydio ond mae breuddwydion allan o'n rheolaeth ni.

Dw i'n credu bod "Ali" (fi) cyn y rhyfel yn wahanol i "Ali" wedi'r rhyfel, sy'n berson newydd dw i'n trio ei ddarganfod. Cyn y rhyfel, do'n i ddim yn deall dim byd am wleidyddiaeth. Wyddwn i ddim beth oedd y gwahaniaeth rhwng Pennaeth y Wladwriaeth a'r Prif Weinidog. Do'n i byth yn gwrando ar y newyddion, ond erbyn heddiw dw i'n ddadansoddwr gwleidyddol. Al-Jazeera y Bore, Canol Dydd, Gyda'r Hwyr, Cynhaeaf y Dydd, Cynhaeaf yr Wythnos… Dechreuais ddilyn yr holl raglenni yma a'u trafod. Dechreuais deimlo bod gwleidyddiaeth a newyddion yn bwysig iawn yn ein bywyd, oherwydd dyna beth sy'n ein lladd ni ac yn rhoi bywyd i ni. A hefyd gan fy mod i am fod y cyntaf i wybod os bydd rhyfel arall.

**18. Fateema Abu Hashem**
**Ganed 1996**
**Stryd Al Jalaa'**

Pan fydda i’n siarad gyda phlant Palesteina yn Ewrop dw i’n teimlo trueni drostyn nhw, a dw i ddim yn dymuno bod fel nhw, achos maen nhw yn y Diaspora. Maen nhw’n plannu eu breuddwydion mewn tir nad eu tir nhw yw e. Mae breuddwydion yn tyfu gyda’r bobl a’r wlad.

Dw i’n caru bywyd, yn caru chwarae, ac yn caru pobl... Hoffwn i pe bawn i’n gallu bod yn Arlywydd ar Balesteina un dydd, fel y bydda i’n gallu cyfoethogi cariad a heddwch rhwng pobl, rhoi diwedd ar y casineb a’r sbeit yn eu calonnau, a rhoi diwedd ar y rhaniad mewnol. Dyma fyddai fy mhenderfyniad arlywyddol cyntaf... Ond yn anffodus nid fi yw’r Arlywydd a dyna pam roedd rhyfel.

Agorodd y rhyfel gyda bomio fel glaw... Rhedon ni allan o’r ysgol mewn ofn... A chanfod y byd i gyd yn rhedeg yn y strydoedd. Roedd pobl yn chwilio am eu meibion, eu chwiorydd, eu mamau... Roedd pawb yn rhedeg gyda’u pennau wedi’u codi i’r awyr. A bod yn onest, roedden nhw’n edrych yn rhyfedd. Gwelais un ohonyn nhw o bell yn gwisgo pyjamas, yn droednoeth ac yn rhedeg. Pan welais i hi’n gyntaf wnes i ddim o’i nabod, ond pan ddes i’n agosach – waw, dyna wraig fy ewythr, y fenyw smart sydd byth yn gadael y tŷ heb edrych yn berffaith. Ro’n i’n sicr bryd hynny bod y rhyfel wedi dechrau.

Mae dros flwyddyn wedi bod ers i ni fod yn siarad am y rhyfel; rydyn ni wedi’i fyw ac yn parhau i’w fyw bob dydd mewn manylder. Oherwydd mae’r teledu, y ffôn a gloch y tŷ i gyd yn bethau sy’n fy atgoffa o’r rhyfel, a dw i ddim yn eu hoffi. Wyddoch chi! Fe wnes i hyd yn oed daflu fy ffôn symudol i’r bin. A dw i’n ofni bod ar fy mhen fy hunan yn fwy na dim. Dw i’n meddwl: Beth fydden i’n ei wneud pe bai rhyfel yn dechrau a fy mod i ar fy mhen fy hunan, pwy fydd yn fy amddiffyn? A phan fydda i gyda’r teulu dw i’n dechrau meddwl sut byddwn i’n eu hamddiffyn.

Roedd gen i freuddwyd fawr; dod yn actores, ond dechreuodd y freuddwyd yma grebachu’n araf, oherwydd dydy’r bobl yn fy ngwlad i ddim yn edrych ar actoresau mewn ffordd gadarnhaol, er bod actio’n bwysig ac yn caniatáu i fi gyfleu’r darlun o ddioddefaint yn fy ngwlad a fy nghymdeithas i’r byd. Mae gen i ail freuddwyd os nad yw’r gyntaf yn gweithio allan – bod yn newyddiadurwr, a’r drydedd freuddwyd yw creu teulu dw i’n ei garu ac sy’n fy ngharu i. Y bedwaredd yw i ni gael bod yn rhydd ac i faner Palesteina hedfan yn rhydd, a’r bumed yw gweld pobl yn hapus, heb farwolaeth, dinistr, amddifadedd na rhyfel, a’r chweched a’r olaf yw i fi orffen y monolog yma a dod i lawr o’r llwyfan...

**19. Fateema Atallah**
**Ganed 1996**
**Ash Sheikh Radwan**

Fe ddihangodd pysgod Gaza... Ond doedd dim modd i'r bobl wneud yr un fath. Agoron nhw'r garthffosiaeth i mewn i'r môr, a phe bai'r môr yn gallu siarad byddai'n dweud wrthyn nhw: "Cywilydd arnoch chi am yr hyn rydych chi'n ei wneud i Gaza a fi." Yn lle ysgolion actio a cherddoriaeth, daeth Gaza'n ysgol ar gyfer saethu a lladd.

Mae natur yn fy nychryn i, mae gen i ofn chwilod duon ac adar, a dw i'n poeni ddydd a nos...

Ar ddiwrnod cyntaf y rhyfel, aeth yr holl ferched adre heblaw amdana i. Fi oedd yr un olaf i adael yr ysgol. Ro'n i'n eistedd yno, yn crynu, allwn i ddim sefyll ar fy nghoesau... Yn y diwedd ro'n i'n teimlo fel pe na bawn i'n helpu fy hunan, fyddai neb yn gwneud... Casglais fy nerth a sefyll i fyny, yn crynu, a cherdded fel coeden yn y gwynt, fy nghorff cyfan yn crynu. Roedd pobl yn cerdded yn agos ata i, ond doedd neb yn fy nheimlo i. Daeth synau'r rocedi'n uwch a thyfodd yr arswyd yn fy nghalon yn ddyfnach.

Fel arfer, hanner awr yw'r daith o'r ysgol i fy nghartref, ond y diwrnod hwnnw, cyrhaeddais adre mewn pymtheg munud oherwydd fy ofn. Dyna pryd teimlais i'r mwyaf o ofn yn fy mywyd... Ro'n i'n meddwl bob eiliad y byddwn i'n marw. Dyna oedd y tro cyntaf i fi deimlo'r unigrwydd ofnadwy yma, er bod y strydoedd yn llawn pobl.

Cyrhaeddais adre a sefyll wrth y ffenest. Cwympodd roced yn agos i'r tŷ, a hedfanais oddi ar y ddaear a glanio ar fy nghefn. Drwy'r rhyfel cyfan, allwn i ddim sefyll wrth ffenestri. Dechreuais gysgu mewn ystafell fewnol heb un ffenest.

Dw i'n credu fy mod i'n dal i fod ofn hyd heddiw... Ond dw i'n esgus nad ydw i.

**20. Muhammad El Omrani**
**Ganed 1995**
**Al Shuja'iyeh/Al Montar**

Gaza, y breichiau cynnes, a thân uffern. Arswyd, ofn, marwolaeth a dinistr, ond y tro yma roedd ein hardal ni'n "ddiogel". Bob tro mae'r goresgynwyr yn ymosod, maen nhw'n ein taro ni gyntaf, ond roedd hi'n ymddangos eu bod wedi diflasu ar ein hardal ni y tro yma, ac eisiau ychydig o newid, felly roedden ni'n lwcus.

Ro'n i'n arfer treulio'r diwrnod cyfan yn eistedd ar gadair yn gwylio pobl yn dianc o'u tai tuag at y ffin, yn cario eu heiddo, eu meibion a'u merched ac yn mynd tua'r gorllewin. Roedd rhai ohonyn nhw'n cario eu plant ar eu hysgwyddau, y mamau ar eu cefnau... Ble oedden nhw'n mynd, dydych chi ddim yn gwybod, tan i Gaza gyfan gael ei gwasgu i un ardal. Yna daeth y pellter yn dynnach, a dechreuon nhw ddianc o'r mosg, a daeth yn dynnach ac yn dynnach tan iddyn nhw gyrraedd ein tŷ ni. Dywedais i wrth fy nhad: "Beth? Ai ein tro ni yw hi nawr? Ond ble ydyn ni'n mynd i fynd?" Mynnodd fy nhad ein bod ni'n aros adre, a dywedodd: "Mae person sy'n gadael ei gartref yn colli ei urddas..." dywedais wrth fy hunan: "Arhosa lle wyt ti, dwyt ti ddim yn well nag eraill, ac fe ddaw beth bynnag a ddaw."

Drwy'r dydd byddwn i'n cadw fy hunan yn brysur gyda bwyd, a weithiau byddwn i'n mynd i nôl dŵr gyda fy nghefndryd o'r pibellau yn y stryd, roedden nhw tua 1000 metr o'r tŷ. Roedden ni'n arfer mynd â throl asyn Sabri, roedd e a'i frawd yn arfer dod gyda ni i helpu. Byddai'n sôn wrthon ni ar y daith am ei weithredoedd arwrol a'i geffyl a sut byddai e'n mynd i'r anialwch ac yn hela adar gyda'i slingshot. Wnes i ddim cario slingshot erioed – mae'n fy nychryn i. Ond roedd y straeon yn braf, ac yn y dyddiau hynny, yn ddifyr, er gwaethaf ein hofn. Roedden ni'n siarad er mwyn tawelu ein hofn o fod yn y strydoedd.

Pan fyddai'r dydd ar ben, a'r nos ar gyrraedd, bydden ni'n dweud: "Mae'r noson wedi cyrraedd gyda'i phryderon." Allen ni ddim hyd yn oed cysgu, ro'n i'n arfer cysgu am 15 munud a deffro am 3 awr, sut gallwch chi gysgu gyda'r bomio'n digwydd?! Ac rydyn ni'n gorwedd yn y gwely yn aros am ein tynged. Weithiau byddwn i'n edrych ar yr awyr o ymyl y ffenest, ac yn gweld y byd mooooooor goch gyda thân a mwg ym mhobman, a byddwn i'n gofyn i'n hunan: pam fod y byd i gyd yn gorffwys a ninnau'n byw yn uffern?

**21. Muhammad Qasem**
**Ganed 1995**
**Stryd Al Saftawi**

Roedd fy nain a finnau adre ar ein pennau ein hunain. Roedd hi'n adrodd straeon wrtha i am ddyddiau ein gwlad, straeon doniol a thrist, ond ddywedodd hi erioed stori gyfan wrtha i oherwydd roedd yn rhaid iddi fynd i'r tŷ bach hanner ffordd drwy'r stori bob tro. Mae fy nain yn treulio hanner ei hamser yn yr ystafell a'r hanner arall yn yr ystafell ymolchi.

Daeth fy rhieni'n ôl am 10:30 y nos a mynd i gysgu'n syth. Allwn i ddim cysgu; ro'n i'n gorwedd ar fy ngwely'n effro, yn gwneud fy ngwaith cartref. Yn sydyn, clywais sŵn ffrwydrad pell. Es i i ystafell fy rhieni a mynd â'r radio i glywed y newyddion. Deffrais fy nhad a dweud wrtho: "Dw i newydd glywed sŵn ffrwydrad mawr."
Meddai: "Bydda'n dawel a cher i'r gwely, jyst saethu di-nod yw e."

Wel, es i 'nôl i'r gwely, a diffoddodd y trydan. Yn sydyn, roedd ffrwydrad enfawr a grynodd fy myd. Tynnais fy mlanced a gorchuddio fy wyneb, a chwympodd rhywbeth arna i. Codais y flanced oddi arna i gyda fy holl nerth, a ffrâm y ffenest oedd wedi cwympo arna i. Roedd y flanced yn llawn gwydr, ac roedd ein tŷ cyfan yn llawn mwg du... Dyna'r diwrnod y taron nhw undeb y gweithwyr, drws nesaf i'n tŷ ni.

Ond nid dyna'r pwynt. Y pwynt yw'r pethau gwirion a ddigwyddodd na alla i ddod o hyd i esboniad amdanyn nhw. Yn gyntaf, roedd y byd ar dân ac roedden ni i gyd yn teimlo y bydden ni'n marw, ond roedd fy nain yn chwilio am ei dannedd gosod – roedd hi'n ofni pe bai hi'n marw, y byddai pobl yn gweld nad oedd dannedd ganddi... Fel tasen nhw ddim yn gwybod hynny'n barod!

Yn ail, roedd y tŷ'n llawn mwg, ond taniodd fy nhad sigarét a dechrau smygu... Fel tasai angen mwy o fwg arnon ni!

Yn drydydd, ffoniodd fy ewythr i wneud yn siŵr ein bod ni'n iawn, a dywedodd fy nhad wrtho ein bod ni i gyd yn iawn, diolch i Dduw, ond bod pob un o ffenestri'r tŷ – ond un – wedi torri. Dywedodd fy ewythr wrtho i'w thorri, ac fe wnaeth e!

Ac wn i ddim pam dw i'n adrodd y stori yma, yr oll dw i'n ei wybod yw ein bod ni'n byw mewn cawell... carchar... fel aderyn wedi'i gaethiwo, sydd eisiau dod allan ond sydd dan warchae. Mae plant yn marw o flaen llygaid eu rhieni, mae calonnau'n crio drostyn nhw ac yn sgrechian mor swnllyd â phosib, ond does neb yn clywed. Nid yw calonnau neb yn meddalu, a does dim ots gan neb!

**22. Mahmud Abu Shaa'ban**
**Ganed 1996**
**Al Remal**

Fe wnewch chi fy ngalw i'n wallgo', yn hurt, yn lloerig, ewch amdani... Does dim ots gen i, does dim ots gen i mwyach... Y gwir ydy, dydy'r hyn sy'n digwydd i fi ddim yn normal. Wrth gwrs, mae colli ffydd mewn ffrindiau'n normal; mae llawer o bobl wedi colli ffydd mewn eraill... Ond yr hyn sy'n fy ngyrru i'n wallgo' yw'r ffaith fy mod i wedi colli ffydd mewn ffenestri siopau a cheir, mewn gorsafoedd heddlu ac ardaloedd amheus. Yn fy athroniaeth bersonol i, mae Gaza gyfan yn ardal amheus.

I dorri stori hir yn fyr, popeth a fyddai'n cael ei daro yn y rhyfel, dw i'n ofn mynd yn agos ato heddiw.

Dw i ddim yn gwybod sut mae cerdded i lawr y stryd, byddwn i'n cerdded ar y dde ac yn dychryn, yna byddwn i'n symud i'r chwith, ond byddwn i'n dychryn... Felly byddwn i'n mynd yn ôl i'r dde... Ac yn aros yn y corwynt yna... Ble ydw i fod i gerdded – yng nghanol y stryd?

Chi'n gweld, ar ddiwrnod cyntaf y rhyfel, ro'n i yn siop fy mrawd sy'n gwerthu cyfrifiaduron a nwyddau ffonau symudol... Cwympodd medel ar y llawr a dywedodd fy mrawd wrtha i am ei hongian. Yn sydyn, wrth ei hongian, clywais sŵn rocedi, ac fe gwympodd y gwydr arna i a fy anafu. Ro'n i'n ofnus. Doeddwn i ddim yn ofnus drosta i, ond dros fy mrawd. Roedd e wedi'i anafu hefyd.

Roedd e'n poeni am ein teulu. Dywedodd e wrtha i: "Cer i'r tŷ a gwna'n siŵr eu bod nhw'n iawn. Es i i fyny'r grisiau a do'n i ddim yn ofnus. Gwnes i'n siŵr eu bod nhw'n iawn, ac roedden nhw i gyd yn iawn, diolch i Dduw.

Cerddais i fyny'r stryd i weld ble ddigwyddodd y ffrwydrad. Clywon ni lawer o ffrwydradau. Roedd Gaza fel nos ddu oherwydd y mwg. Ond doedd gen i ddim ofn yn dal i fod.

Anghofiais i ddweud wrthoch chi fod gan fy mrawd baned o de yn y ffrwydrad cyntaf, a gwympodd o'i law a chwalu.

Ydych chi'n credu mai ofn oedd hynny???

**23. Mahmud Bala'wi**
**Ganed 1995**
**Gwersyll Ash Shati'**

Hoffwn i ysgrifennu geiriau hyfryd am Gaza, ond alla i ddim. Alla i ddim peidio gweld y tlodi, y gwarchae a'r newyn, yn enwedig pan wnaeth dinas Gaza lifo i Al-Areesh a'i gwagu o'i holl nwyddau ymhen dwy awr. Alla i ddim peidio gweld yr amddifadedd ym mhob tŷ, yr ofn a'r salwch.

Beth ydych chi eisiau i fi ei ddweud am Gaza? Ers i fi ddod yn ymwybodol ohoni, dw i'n i'n drist am bopeth sydd ynddi. Yn enwedig y plant a hyd yn oed yr oedolion, pobl ifanc, menywod, merched, anifeiliaid, cerrig a choed, mae popeth ynddi'n crio... Dw i'n chwilio am eiriau caredig i'w dweud ond alla i ddim dod o hyd iddyn nhw.

Y môr yw'r unig beth sy'n fy helpu i freuddwydio. Pan fydda i'n sefyll wrth y lan, galla i ddychmygu Cyprus, teithio i Baris, hedfan i Rufain, gan sefyll yn yr un man. Dw i'n mynd o gwmpas y byd i gyd, ac yn y diwedd dw i'n glanio ar fy ngwely yn fy nhŷ, yng nghanol y gwersyll i ffoaduriaid. Dw i'n dychwelyd i realiti Gaza, y farchnad fudr, carthffosiaeth yn gorlifo, y troliau, a'r hyn sydd ar ben y troliau, yr arogl sy'n mygu, a'r bobl fud na all siarad.

Pan fydda i'n edrych ar y cloc ac mae'n 11:55 dw i'n dechrau crynu ac mae fy nghalon i'n curo'n gyflymach, dw i'n teimlo bod y rhyfel yn dechrau eto. Nid y cloc yn unig sy'n fy nychryn i – mae popeth sy'n hedfan yn gwneud hynny, hyd yn oed y pryfed. Alla i ddim dweud wrth neb am fy ofn, rhag iddyn nhw fy ngalw i'n llipryn neu'n fabi mawr. Dw i'n ofni fwyaf dros fy mrodyr hŷn. Pan fydd pryfyn yn glanio ar un ohonyn nhw, dw i'n teimlo fel pe bai'n mynd i'w lladd nhw, a dw i'n dechrau gweiddi ac yn dianc o'r lle. Dyna pam fy mod i'n dianc o'r tŷ o hyd nawr, oherwydd yr holl bryfed.

**24. Mahmud El Turk**
**Ganed 1994**
**Stryd Al Jalaa'**

Cyn y rhyfel, plentyn o'n i... Ond ar ôl y rhyfel dw i wedi darganfod nad plentyn ydw i mwyach, ac nad oes gan Gaza, yn wahanol i ddinasoedd y byd, blant ynddi.

Pan ddechreuodd y rhyfel, ro'n i'n chwarae yn yr ardal leol, a gwelais i'r holl gymdogion yn rhedeg i ffwrdd. Gofynnais i beth sy'n digwydd? Dywedon nhw: "Dywedodd byddin Israel wrth y cymdogion y byddan nhw'n bomio eu tŷ." Rhedais adre i ddweud wrth fy rhieni. Mewn llai na munud, roedden ni'n rhedeg o'r tŷ. Aethon ni'n waglaw, heblaw am y popty nwy, gan ei fod yn ddrytach nag aur yn Gaza.

Ro'n i'n teimlo fel na fydden i byth yn dychwelyd adre.

Aethon ni i dŷ fy nhaid. Y diwrnod canlynol, ffoniodd swyddogion cudd-wybodaeth Israel tŷ fy nhaid i ddweud y bydden nhw'n bomio'r tŷ hwnnw hefyd. Rhedon ni allan a mynd i dŷ fy nhaid arall, tad fy mam. Roedd pum teulu arall yno, fy modrybedd i gyd. Daeth fy nghefndryd a fi yn ffrindiau da; bydden ni'n aros i fyny drwy'r nos ac yn siarad am y rhyfel. Ro'n i wedi blino ac yn ofnus ac eisiau mynd adre a chysgu ar fy ngwely a fy ngobennydd.

Dridiau'n ddiweddarach, bomion nhw dŷ ein cymdogion. Ar ôl y bomio, dychwelodd trigolion y gymdogaeth i'w tai. Ac es i'n ôl i fy ystafell... Ond allwn i ddim cysgu mwyach.

Dw i wedi bod eisiau teithio ers amser hir. Mae gen i ewythr yng Nghanada sy'n anfon fideos ata i ohono fe a'i deulu yng Nghanada, yn y parciau, y môr, y siopau... Ac yng nghefndir y lluniau mae merched Canada... Fel taswn i angen hynny. Mae e fel pe bai e'n fy ngwawdio i. Dechreuais freuddwydio am Ganada ddydd a nos... Dyna pam dw i'n hoffi actio nawr... Dw i'n dweud wrth fy hunan efallai y bydd pethau'n gweithio allan i fi, ac y bydda i'n actor ac yn teithio i Ganada! Ac yn byw yng Nghanada, yn priodi rhywun o Ganada, ac yn cael plant bach o Ganada. Pa iaith maen nhw'n siarad yng Nghanada? Ta waeth, fe ddysga i Ganadeg, a does dim ots gen i ta beth – fyddan nhw ddim yn gwybod taw Arab ydw i yng Nghanada, gan fod fy ngwallt i mooor felyn a fy llygaid yn las.

**25. Mahmud Afana**
**Ganed 1995**
**Stryd Al Saftawi**

Os ydych chi eisiau fy ngalw i'n llwfrgi, gwnewch hynny... Oherwydd ar ôl y rhyfel, dw i ddim yn ateb unrhyw blentyn sy'n rhegi arna i neu sydd hyn yn oed yn fy nharo. Teimlo'n drist ydw i, dw i'n gadael ac yn cerdded i ffwrdd. Cyn y rhyfel, do'n i ddim fel'na – byddai'r aderyn hedegog yn fy osgoi. Pam ddigwyddodd hyn i fi? Achos a dweud y gwir, ar ôl i fi weld cymaint o blant yn marw yn y rhyfel, dechreuais i deimlo ein bod ni i gyd yn mynd i farw, dim ond bod ychydig o oedi. Dywedais i wrth fy hunan: "Drycha, rwyt ti'n llawer mwy na hyn." Dechreuais deimlo fy mod i'n gan mlwydd oed.

Daeth y rhyfel i ben ar y tir, ond mae'n dal i fod yno yn fy mhen. Dw i eisiau bod fel unrhyw blentyn yn y byd... Nid yn y byd, ond yn Jerwsalem o leiaf. Pan fydda i'n sgwrsio gyda fy nghefndryd sy'n byw yn Jerwsalem ar y we, dw i'n teimlo eu bod nhw'n byw eu plentyndod a dydyn nhw ddim yn meddwl fel fi o gwbl. Mae gen i ofn dweud wrthyn nhw beth dw i'n ei feddwl, fel nad ydyn nhw'n meddwl fy mod i'n rhyfedd. Dw i'n esgus fy mod i'n gwrando arnyn nhw, a dw i'n dweud celwyddau wrthyn nhw. Dydyn nhw heb fyw beth rydyn ni wedi'i fyw yn y rhyfel.

Aeth fy nheulu, a theulu fy ewythr a fy nhaid, i fyw yn nhŷ fy ewythr Anan, gan ei fod yn bell o'r rhyfel ac mewn ardal ddiogel, neu dyna roedden ni'n ei feddwl.

Y diwrnod canlynol, roedd bomio ar y stryd drws nesaf i dŷ fy ewythr, a dymchwelodd y wal tu ôl i'r tŷ.

Ar y trydydd diwrnod, aeth fy ewythr, oedd yn byw yn y tŷ roedden ni'n aros ynddo, i brynu *foul* [ffa] a ffalaffel i frecwast. Pan ddychwelodd, parciodd y car wrth ddrws ei dŷ, a chyn iddo gamu o'r car, cwympodd roced arno. Cwympodd hanner uchaf ei gorff ar yr asffalt, a phan ddaeth yr ambiwlans, tynnon nhw'r hanner isaf o'r car. Aeth y parafeddygon i gasglu'r hanner uchaf mewn bag plastig a mynd ag e i'r ysbyty... Dechreuodd pawb grio a sgrechian... A dechreuodd fy mam ofyn i Dduw ddod ag e'n ôl yn ddiogel.

Wn i ddim, oedd hi'n dweud celwydd wrth ei hunan neu wrthon ni?? Wrth gwrs, ddaeth fy ewythr ddim 'nôl, a fydd e byth yn dod 'nôl yn ddiogel.

**26. Mahmud Najem**
**Ganed 1994**
**Ash Sheikh Radwan**

Am y tro cyntaf, roedd strydoedd Gaza'n lân, doedd dim un darn o bapur na chardbord yn unman. Roedd pobl yn casglu'r papur o'r strydoedd i'w ddefnyddio i bobi, gan fod y trydan wedi'i ddatgysylltu. Doedd fy mam ddim eisiau pobi, a gofynnodd i fi ddod â bara o'r siop fara. Roedd ciw y siop fara yn ymestyn o Gaza i'r Lan Orllewinol. Byddai pobl yn ciwio am 8 awr i gael eu tro a mynd â hanner pecyn o fara.

Mewn eiliadau, codwyd lansiwr rocedi Palesteinaidd yn yr ardal, ac mewn llai nag eiliad fe ddechreuodd awyrennau Israel ei bomio. Dechreuodd pobl redeg i bob cyfeiriad, a daeth yr ambiwlansys.

Dechreuodd pobl gwympo'n farw... roedd eraill wedi'u hanafu. Ro'n i mewn sioc, a dechreuodd y bobl yn y stryd ddweud wrtha i "Diolch i Dduw dy fod di'n ddiogel".

Ta waeth, es i 'nôl adre heb y dorth o fara. A gwaeddodd fy Mam arna i... Ond hyd heddiw, dydy hi ddim yn gwybod pam na ddes i â'r bara.

**27. Heba Daoud**
**Ganed 1995**
**Yr Harbwr**

Pan o’n i’n bum mlwydd oed, aethon ni i Tiberias un dydd... Roedd hi’n ddinas hardd iawn, fel paradwys... Pan oedden ni’n mynd adre ar y bws, galwodd rhywun y gyrrwr a dweud wrtho i beidio mynd ar ffordd Jerwsalem gan fod Sharon wedi mynd i mewn i fosg Al Aqsa. Dim ond bryd hynny y sylweddolais i nad ein dinas ni yw Tiberias.

Rydw i yn ysgol Rimal yn agos at y Weinyddiaeth Pasbortau, a gafodd ei tharo gyntaf yn y rhyfel. Hedfanodd yr holl Weinyddiaeth i’r ysgol! Dechreuodd yr holl ferched grio heblaw amdana i, ro’n i’n chwerthin, a hyd heddiw, wn i ddim pam fy mod i’n chwerthin.

Pan es i adre a throi’r teledu ymlaen, gwelais yr holl adeiladau o gwmpas ein hysgol wedi’u dinistrio, gyda chyrff marw yn gorwedd drws nesaf i’w gilydd. Gwelais i’r ysgol, ond welais i ddim ohona i ar y teledu, a diolchais i Dduw. Dw i’n gobeithio na fydd yna ddiwrnod pan fydda i ar y teledu, oherwydd y cyfan sydd arno yw marwolaeth.

Ar ôl y rhyfel, dechreuais wybod beth roedd pobl yn ei feddwl cyn iddyn nhw siarad hyd yn oed. A theimlo beth oedden nhw ei eisiau o’r golwg yn eu llygaid. Dechreuais hefyd wybod pethau na ddylai rhywun fy oedran i eu gwybod. Des i’n fwy dewr a dechreuais wybod sut i siarad yn gywir, a thyfodd fy ymddiriedaeth mewn pobl. Mae’n debyg bod manteision i’r rhyfel, gredai rhywun hynny? Ar ôl y rhyfel, dw i’n gryfach ac yn camu i’r dyfodol yn fwy hyderus.

**28. Wi’am El Dieri**
**Ganed 1997**
**Es Sabra**

Yr hyn dw i’n ei garu fwyaf am Gaza yw Parc Barcelona. Ro’n i’n arfer mynd yno dair gwaith yr wythnos. Byddwn i’n treulio’r diwrnod cyfan ar y siglenni, yn chwerthin ac yn chwarae gyda fy ffrindiau. Ond yn ystod y rhyfel, fe wnaeth y goresgynwyr ei chwalu a’i ddinistrio. Es i i ymweld â’r lle a dechrau crio. Cofiais ble ro’n i’n arfer chwarae a ble roedd y siglenni, a fy chwerthin gyda fy ffrindiau.

Dw i eisiau bod yn gyfreithiwr fel bod modd i fi amddiffyn y bobl sydd wedi cael eu herlid... Ac wnewch chi ddim canfod mwy ohonyn nhw nag yn ymerodraeth Gaza, oherwydd dw i’n teimlo bod Gaza yn gant o wledydd ac yn filiwn a hanner o arlywyddion.

Cyrhaeddodd y tanciau ein tŷ am bump y bore. Dechreuodd Mam gasglu’r pethau o’r tŷ, a chafodd popeth ei droi ben i waered mewn ychydig eiliadau. Dechreuodd pawb weiddi a chario’r hyn allen nhw, ac aethon ni allan i’r strydoedd, heb wybod ble i fynd.

Dywedodd fy nain: “Gallwch chi ond fynd i’r ysgolion.” Ac O ysgolion, O ysgolion, mae ein hysgol ni’n fwy hyfryd na phob ysgol arall! Roedd cant ohonon ni’n arfer cysgu mewn un dosbarth. O’r noson gyntaf, dechreuais gwympo allan gyda merch arall am chwarter metr, a phwy oedd yn mynd i gysgu ynddo. A dw i ddim yn gwybod sut gysgon ni, ar ben ein gilydd... Fel mynydd o hen ddillad anghofiedig wedi’u taflu.

Dridiau’n ddiweddarach, aethon ni’n ôl i’r tŷ a’r gymdogaeth, ond roedd llawer o bethau wedi newid. Doedd y gymdogaeth ddim fel oedd hi, a doedd y bobl ddim fel oedden nhw chwaith. Y newid mwyaf ynddo i yw’r ffaith i fy mod i wedi dechrau hel clecs. Wir, alla i ddim cau fy ngheg. Dywedodd fy hyfforddwr theatr wrtha i fod hyn yn normal yn Gaza, bod pawb yn Gaza yn hel clecs am ei gilydd, ond y gwahaniaeth rhyngddo i a phobl Gaza yw nad ydyn nhw’n cyfaddef eu bod nhw’n hel clecs! Er fy mod i’n cyfaddef, yn fy iawn bwyll, fy mod i’n hel clecs...

Weithiau, does neb i hel clecs amdanyn nhw, felly dw i’n hel clecs am fy hunan...

**29. Yasmeen Ja'rour**
**Ganed 1996**
**Al Daraj**

Mae ein dyfodol yn Gaza yn aneglur ac yn anhysbys... Fel llosgfynydd tawel a all ffrwydro unrhyw funud... Fel pe baen ni ar gwch heb gapten yng nghanol môr ffyrnig... Rydyn ni'n mynd i'r chwith ac i'r dde... A does neb yn gwybod i ba gyfeiriad dylen nhw bwyso.

Dw i'n clywed mewn gwledydd eraill bod plentyndod yn gysegredig, a bod plant yn byw eu bywydau heb broblemau nac ofn... Ond mae plant Gaza'n angof, tu allan i'r darlun... Nhw yw'r rhai sy'n teimlo'r anghyfiawnder fwyaf, oherwydd mae cymdeithas yn eu trin nhw fel nad ydyn nhw'n blant. Pan fydd cymdeithas eisiau, mae'n ei throi nhw'n oedolion, a phan fydd eisiau, bydd yn eu dychwelyd nhw i fod yn blant, ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn eu trin nhw fel dim mwy na chyrff, ac nid meddyliau. Pan fydda i'n gweld plentyn yn gwerthu ar y stryd neu'n gweithio mewn siop, dw i'n dychmygu plant y byd yn chwarae, yn gorffwys, yn teimlo'n ddiogel. Wir, mae fy nghalon i'n torri drostyn nhw, a weithiau dw i'n crio.

Does gan Gaza ddim tynerwch a dim plentyndod, mae bachgen yn cael ei eni'n ddyn ac mae merch yn cael ei geni'n fenyw.

Roedd Dad yn llawer mwy tyner gyda fi cyn y rhyfel, hoffwn i pe bai e'n fy nghofleidio i yn ei freichiau fel o'r blaen... Ond Duw a'i helpo, mae e'n poeni hefyd fwy na thebyg. Oherwydd yn y rhyfel, fel gollon ni 5 donum o dir mewn eiliad. Cafodd cae 60 oed ei daro gan roced byddin Israel, a llosgodd yr holl orennau ynddo. Gallai fy nhad, fy mrawd a fi fod wedi'n lladd gan y roced yna hefyd, oherwydd roedden ni'n agos at y ffenest. Pe bai Dad heb fy nhaflu i i'r llawr, byddai'r shrapnel wedi fy nharo i.

Ar ôl y rhyfel, ymwelais i â Chroesfan Rafah, a gweld baneri Palesteina a'r Aifft yn ymyl ei gilydd, ond wedi'u gwahanu gan wifren. Teimlais y gwahaniaeth rhwng y ddwy faner, ac mai'r wifren yma yw ffin y carchar maaaaaaaawr rydyn ni'n byw ynddo. Teimlais mor wirion ac anghyfiawn mae'r byd, a theimlais fel torri pob ffin a rhoi diwedd ar bob gwahaniaeth rhwng hil a chrefydd, fel bod pawb yn y byd yn frodyr. Fy mreuddwyd yw byw mewn gwlad ddiogel, hyd yn oed mewn pentref bach, ar ynys bell ar ben pella'r byd.

**30. Yasmeen Abu Amer**
**Ganed 1996**
**Al Shuja'iyeh**

Dw i eisiau bod yn arbenigydd gwyddoniaeth metaffiseg (yr hyn sydd tu ôl i natur). Wyddoch chi pam? Oherwydd dw i'n credu bod Gaza ei hunan tu ôl i natur, a ches i gymaint drwy fy mhresenoldeb yma yn Gaza, a hoffwn drosglwyddo fy sgìl i eraill.

Gwersyll Shuja'iyyeh yw canolbwynt y digwyddiadau bob tro. Pan fydd y goresgynwyr eisiau meddiannu Gaza, maen nhw'n mynd heibio i'n tŷ ni. Pan ddechreuodd y rhyfel, gadawodd pobl eu tai gan feddwl y byddai'r Shuja'iyyeh yn cael ei daro. Mae'n normal gadael ein cartref yn yr achos yma.

Roedd pawb yn ffonio fy nhad i'w ddarbwyllo i adael y tŷ – fy mrodyr o Algeria, fy ewythrod o'r Unol Daleithiau, fy ewythrod o Ankara, roedd y byd i gyd yn erfyn ar fy nhad, ond doedd e ddim yn fodlon newid ei feddwl, gan wrthod gadael Shuja'iyyeh. Ar ôl tri diwrnod gyda fy mam yn pacio nwyddau'r tŷ, roedden ni'n barod i deithio ond yn sownd... Roedden ni eisiau mynd i dŷ fy chwaer gan ei bod yn fwy diogel yno. Ar ôl i ni siarad nes ein bod wedi ymlâdd, fe gytunodd a dweud: "Ewch chi, ac fe ddilyna i."

Sut allwn ni fynd a'i adael? Roedd fy mam yn glyfar, fe adawodd hi'r bara adre, ac rydych chi'n gwybod mor werthfawr oedd bara yn y rhyfel. Pan gyrhaeddon ni dŷ fy chwaer, ffoniodd hi fy nhad yn syth a dweud: "Salman, rydyn ni wedi anghofio'r bara, dere â'r bara i ni." Ac fe gwympodd Salman i'r trap, a dod â'r bara aton ni, a wnaethon ni ddim gadael iddo fynd yn ôl.

Y bore canlynol, deffron ni i fom ffosfforws yn llenwi'r stryd. Dechreuon ni grio... Ein dagrau'n disgyn oherwydd y ffosfforws. Roedd y bom yn haws arnon ni na gwawdio Dad. Meddai: "Dywedais i wrthoch chi am aros adre, mae'n well i ni – does unman fel adre," ac ymlaen yr aeth. I wneud pethau'n waeth, cafodd y mosg a'r tŷ drws nesaf i dŷ fy chwaer eu dinistrio yn y bomio, ac allwch chi ddychmygu sut agwedd dad wedyn. Roedd e am fynd â ni 'nôl adre ar unwaith. Cyn iddo orffen ei frawddeg bron, dywedwyd wrthon ni fod y tŷ drws nesaf i'n tŷ ni yn Shuja'iyyeh wedi'i fomio, a bod blaen ein tŷ wedi'i rwygo i ffwrdd. Ac ar y foment honno, am y tro cyntaf, edrychodd pawb ar Dad.

Arhoson ni yn nhŷ fy chwaer. Daeth yn amlwg i ni waeth ble ydyn ni yn Gaza, yn y rhyfel, doedden ni ddim yn ddiogel.

Ar ôl y rhyfel, dechreuais wisgo'n lân ac yn daclus bob amser, rhag ofn i fi farw, er mwyn gwneud yn siŵr y byddwn i'n cael marwolaeth daclus. Ond byddai'n peri problem taswn i'n cael fy nharo gan roced, oherwydd byddwn i'n torri'n gant o ddarnau, a hoffwn i farw yn un darn.

Waw, Gaza a breuddwydion Gaza… Ein breuddwyd bellach yw marw marwolaeth dda, ac nid byw bywyd da!

**31. Yasmeen Katbeh**
**Ganed 1996**
**Ash Sheikh Radwan**

Pan ddechreuodd y rhyfel, roedd mam, fy mrodyr a fi yn Rwsia, oedd yn golygu fy mod i'n poeni am Dad o hyd. Roedden ni eisiau gadael Rwsia a dychwelyd i Gaza gyda'n teulu, i fyw'r digwyddiadau gyda nhw. Cyn gynted ag y daeth y rhyfel i ben ac agorodd y croesfannau, dychwelon ni i Gaza, ac ers hynny rydyn ni wedi bod yn clywed straeon am y rhyfel hyd heddiw.

Doeddwn i methu cysgu yn Rwsia gan fy mod i'n poeni am Dad. Cyn y rhyfel, pan fyddai'r ffôn yn canu gyda galwad o Gaza, bydden ni'n hapus ac yn rhedeg i'w ateb. Ond yn ystod y rhyfel, bob tro byddai'r ffôn yn canu o Gaza, pe baen ni'n nabod y rhif ai peidio, bydden ni'n dweud: "Dduw Annwyl…" ac yn dechrau edrych ar ein gilydd i weld pwy fyddai'n ateb.

Ar ôl y rhyfel, newidiodd llawer o bethau ynddo i. Dechreuais wneud pethau'n wahanol. Dechreuais hoffi'r ddinas, daeth bywyd yn fwy hardd, a finnau hefyd. Newidiodd fy ffrindiau, a gwnes i ffrindiau hŷn a mwy aeddfed. Ro'n i'n fwy di-flewyn-ar-dafod a dewr, hyd yn oed o flaen Dad, a gallwn i wynebu unrhyw un. Daeth Mam a fi'n ffrindiau, yn aml bydden ni'n aros i fyny gyda'r hwyr yn siarad am bopeth.

Yn y dyfodol, os bydda i'n tyfu i fyny, ac mae tyfu i fyny yn gyflawniad yn Gaza gan fod marwolaeth wrth garreg eich drws, hoffwn i fod yn ofalwr plant ac amddiffyn eu hawliau; oherwydd dw i'n teimlo bod plant Palesteina yn cael eu geni yn oedolion, gall plentyn fod yn 6 oed ond eto'n cefnogi teulu.